

# RHYBUDD O GYFARFOD



*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*

*Prif Weithredwr*

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Penrhyndeudraeth*

*Gwynedd LL48 6LF*

*Ffôn: (01766) 770274*

*E.bost: [parc@eryri.llyw.cymru](mailto:parc@eryri.llyw.cymru)*

**Cyfarfod:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023

**Amser:** 10.00 y.b.

**Man Cyfarfod:** Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***

*Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***

*Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Diweddariad Corfforaethol**  
Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**  
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.  
  
Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
4. **Datgan Diddordeb**  
Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
5. **Cofnodion** **4 - 8**  
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13eg o Fedi 2023 fel rhai cywir. (Copi yma)
6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion** **9**
7. **Taflen Gweithredu**  
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
8. **Ras i Sero** **10 - 13**  
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) **14 - 66**
9. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol**  
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) **67 - 78**
10. **Proffil Risg yr Awdurdod**  
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
11. **Enwau Llynnoedd Eryri** **79 - 135**  
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. (Copi yma)
12. **Adroddiad Gweithgor Aelodau** **136 - 137**  
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar y 6ed Medi 2023. (Copïau yma)
13. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**  
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

14. **Cyflwyno'r cofnodion canlynol er gwybodaeth** **138 - 145**  
(1) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023. (Copi yma)  
(2) Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1 Medi 2023. (Copi yma) **146 - 149**
15. **Cynhadledd Europarc 2023** **150 - 153**  
Derbyn cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd ar Gynhadledd Europarc 2023. **154**
16. **Telerau ac Amodau**  
**Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau**  
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

## **RHAN II**

17. **Telerau ac Amodau**  
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
DYDD MERCHER 13 MEDI 2023**

Cynghorydd Annwen Hughes (Gwynedd) (Cadeirydd)

**PRESENNOL:**

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Louise Hughes, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Delyth Lloyd;

**Swyddogion**

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, David Williams, Mrs A. Gaffey.

**Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr June Jones, Elfed Powell Roberts;  
Sarah Hattle, Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

**1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

- (1) Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod ar ôl gwyliau'r haf.
- (2) Dywedwyd wrth yr Aelodau am ddiwyddiadau a fynychwyd yn ddiweddar gan y Cadeirydd:-
  - roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i drafod materion megis yr economi ymwelwyr, caffael carbon a chyfleoedd i gydweithio.
  - roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â'r Gweinidog dros Newid Hinsawdd, Julie James AS, yn Sioe Frenhinol Cymru i drafod Adfer Natur a'r sefyllfa ariannol bresennol. Roedd y Gweinidog wedi ymweld ag Eryri ddechrau mis Awst i weld gwahanol brosiectau a nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn wynebu diffyg o £900 miliwn yn ei chyllideb.
  - teimlai'r Cadeirydd fod Aseidiadau Aelodau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi bod yn agored ac yn onest a chredai fod y sesiynau wedi bod yn llwyddiant. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu hamser.
  - roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod diweddar o Fforwm Cymru Wledig CLILC lle cafodd yr aelodau gyflwyniad gan yr Athro Michael Woods, Prifysgol Aberystwyth. Trafododd y Fforwm eu Manifesto a chefnogwyd cynnig i ddatblygu rhaglen waith a chais am arian cyllido gan Aelodau'r Fforwm.
  - anogwyd yr holl Aelodau i gwblhau'r cwrs Seiberddiogelwch blynyddol ar-lein. Gofynnwyd hefyd i Aelodau newydd gefnogi'r Cwrs Anwytho sy'n cael ei drefnu gan Barciau Cenedlaethol y DU a gynhelir yn Northumberland ym mis Tachwedd. Nododd yr aelodau fod y Cynghorydd Louise Hughes a Delyth Lloyd wedi nodi eu bwriad i fod yn bresennol.

- Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Is-Gadeirydd yn mynd hefo'r Prif Weithredwr i gyfarfod y Fforwm Cadeiryddion yn Ardal y Llynnoedd sydd i ddod, gan nad oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol ar yr achlysur hwn.

## 2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

- (1) cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Gweinidog yn falch o waith yr Awdurdod, ac yn ystod ei hymweliad roedd wedi edrych ar reoli carbon ym Mhlas Tan y Bwlch, gwaith adfer natur ac wedi ymweld ag Ogwen a Phen y Pas. Roedd y Gweinidog bellach wedi ymweld â'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ac roedd yn gefnogol i'w llwyddiannau. Dywedodd y Prif Weithredwr, yn wahanol i rai Awdurdodau Lleol, nad oedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi cael eu gwahodd i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod diffygion ariannol, a'i fod yn gobeithio bod hyn yn arwydd cadarnhaol na fyddai unrhyw doriadau pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- (2) dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn yr Adroddiad Arallgyfeirio Incwm diweddar gan Archwilio Cymru, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf, fod adroddiad pellach yn cael ei baratoi gan Archwilio Cymru i asesu lefel dderbyniol y risg o arallgyfeirio incwm ar gyfer y Parciau Cenedlaethol. Hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad, teimlai'r Prif Weithredwr na ddylai'r Awdurdod ddechrau ar unrhyw ran o'r gwaith manwl.
- (3) Croesawyd presenoldeb Parc Cenedlaethol Eryri yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd nifer fawr wedi ymweld â'r stondin a holodd y cyhoedd ddigon o gwestiynau diddorol.
- (4) roedd y gwaith atgyweirio ar Hafod Eryri yn cael ei wneud mewn dwy ran. Byddai'r cam cyntaf yn dechrau yn yr Hydref a'r ail gam yn parhau yn y Gwanwyn.
- (5) bydd y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd yn mynychu Cynhadledd Europarc yn yr Iseldiroedd rhwng 2 a 6 Hydref 2023. Thema'r Gynhadledd oedd 'Teyrnged i'n Tirwedd: Lle mae Natur a Phobl yn Cydgordio.'
- (6) rhoddodd y Prif Weithredwr wybod am gyhoeddiad diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddyddiadau digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer pedwerydd Parc Cenedlaethol arfaethedig Cymru. Roedd map yn diffinio'r ardal hefyd wedi'i ryddhau.

## 3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

## 5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

## 6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 7. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.**

8. **Adroddiad Blynyddol 2022-23**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i argymhell mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2022-23 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31 ain Hydref 2023. Gofynnwyd i'r aelodau nodi cywiriad i Adroddiad y Cadeirydd, sef y llinell olaf o'r 3ydd paragraff - dylai ddarllen “..... staff ymroddedig, aelodau, gwirfoddolwyr, a mewnbwn amhrisiadwy gan drigolion a busnesau lleol.”

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Blynyddol 2022-23 sy'n adrodd ar gynnydd o ran cyflawni amcanion Llesiant yr Awdurdod, fel y'u mabwysiadwyd yn Natganiad Llesiant 2021-26 yr Awdurdod. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Adran 5 - Pennu Amcanion Llesiant yr Awdurdod (paragraffau 2 a 3) wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Mewn ymateb i sylw gan Aelod, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd bod yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at weithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdod yn unig ac nad yw'n adlewyrchu ar unrhyw un arall.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**

2. **mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2022-23 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2023.**

9. **Adroddiad Blynyddol ar Weithgaredd Rheoli'r Trysorlys Gwirioneddol 2022/23**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn manylu, yn unol â gofynion statudol, ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn ystod 2022/23, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ei adroddiad yn fanwl a chadarnhaodd fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel.

Mewn ymateb i gwestiwn ar sut y bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r incwm ychwanegol o'r llog a enillwyd, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y gallai meysydd o orwariant elwa o hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd, gan fod setliad grant yr Awdurdod yn parhau'n sefydlog am y tair blynedd hyd at 2024/25, gydag uchafswm diffyg rhagamcanol o £800k yn 2023/24, fod yr Aelodau eisoes wedi cytuno i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r diffyg a gosod cyllideb gytbwys. Cytunodd y Prif Weithredwr y bydd yr incwm llog ychwanegol hefyd yn helpu i gwrdd â phwysau chwyddiant ar yr Awdurdod.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod fel arfer yn cario drosodd tua 6-7% o'i gyllideb oherwydd natur cyflawni'r prosiect, nad yw'n caniatáu rheolaeth lawn o'r swm.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

## 10. **2023/24 Diweddariad ar y Gyllideb**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch y cyllidebau diwygiedig ar gyfer 2023/24 ac adrodd ar drosglwyddiadau sylweddol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r sefyllfa derfynol ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid drosolwg o'r adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer pedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol, a rhoddodd y Swyddog Cyllid ragor o wybodaeth am y ffigurau manwl.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i'r prif ffynonellau cyllid i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, fel y'i nodwyd gan y Tîm Rheoli. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn hyderus y byddai'r Awdurdod yn gallu mantoli'r gyllideb ac atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi darparu rhwyd ddiogelwch dros y 3 blynedd gyda hyd at £1.4 miliwn ar gael, er, hyd yma, ni fu'n angenrheidiol i gael mynediad at y cyllid hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr mai cyngor y Gweinidog oedd bod yn ddarbodus dros y ddwy flynedd nesaf, a allai fod yn arwydd o amserau gwell i ddod.
- cododd Aelod bryderon ynghylch y gorwariant sylweddol ar gasglu sbwriel. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi bod yn gorwario ar gasglu sbwriel ers y pandemig ac y byddai'r gwaelodlin yn cael ei chynyddu i gwrdd â'r galw ar y gyllideb. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi treialu cael gwared ar finiau a bu hynny'n aflwyddiannus yn y gorffennol, a sicrhaodd yr Aelodau nad oedd hwn yn opsiwn. Roedd yr Awdurdod wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn biniau cywasgu i alluogi i fwy o sbwriel gael ei gasglu a nododd yr Aelodau hefyd fod prosiect di-blastig Yr Wyddfa ar y gweill.
- gofynnodd Aelod i'r swyddogion ryddhau datganiad ar fwriad yr Awdurdod mewn perthynas â Chyfarwyddeb Erthygl 4, gan nad oedd yn dymuno gweld yr Awdurdod ar ei hôl hi gyda'r gwaith hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr na allai roi ymateb pendant ar hyn o bryd gan ei fod yn aros am gyfarwyddyd gan yr Aelodau. Hefyd, byddai angen chwilio adnoddau ar gyfer y gwaith, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu drwy geisio cymorth gan yr Awdurdodau Unedol, gan nad oes gan y Parciau Cenedlaethol bwerau codi treth. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir nad oedd yr amserlen wedi llithro, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Hydref o'r Gweithgor Aelodau fel y cynlluniwyd. Cadarnhaodd fod y dystiolaeth o safbwynt y Parc Cenedlaethol yn dangos bod angen gwneud y gwaith hwn, ond bod adnoddau'n gyfyngedig, gyda'r posibilrwydd y byddai angen i'r Awdurdod gyflogi dau swyddog newydd i wneud y gwaith.
- er gwybodaeth, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n galw cyfarfod o'r Cadeiryddion i drafod y Gyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol ar gyfer 2023/24.**

## 11. **Cyd Weithgor Lleol**

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Cyd Weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023.

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Aelodau wedi cael cyflwyniad ar yr Holiadur Staff mewn cyfarfod diweddar o Weithgor yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

12. **Cyfarfodydd Sefydliadau eraill**

Nid oedd yr Aelodau wedi mynychu cyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55**





## TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr	- <b>y dylai'r Panel, ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, ystyried telerau ac amodau'r Prif Weithredwr ymhellach, a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf yr Awdurdod os oes angen.</b>	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	Cadeirydd / NM/GIJ	Wrthi'n casglu'r wybodaeth ofynnol ar hyn o bryd er mwyn galluogi trafodaeth lawn mewn cyfarfod yn y dyfodol. DIWEDDARIAD - Adroddiad yn cael ei chyflwyno heddiw i'r Aelodau ystyried argymhellion y Panel.	<b>IA</b>
	- <b>bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.</b>	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	NM	Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa.	<b>NA</b>

<b>CYFARFOD:</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD:</b>	15 Tachwedd, 2023
<b>TEITL:</b>	<b>RAS I SERO</b>
<b>AWDUR:</b>	Prif Weithredwr
<b>PWRPAS:</b>	Er mwyn i'r Aelodau ystyried yr adroddiad a phenderfynu a ddylid ymrwmo gyda Pharciau Cenedlaethol eraill y DU i'r Ras i Sero

**1. CEFNDIR:**

- 1.1 Mae'r Cenhedloedd Unedig, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol wedi datgan argyfwng hinsawdd. Mae gan yr Awdurdod hwn, trwy ei lythyr tymor y Llywodraeth a phwrpasau statudol, rôl arwyddocaol wrth ymateb i newid hinsawdd a'r dirywiad mewn natur. Mae gan Barciau Cenedlaethol rôl gynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu ar faterion o'r fath.
- 1.2 Mae parciau cenedlaethol y DU yn gwneud cynnydd da ac mae hynny'n cynnwys ymuno â'r fenter arweinyddiaeth hinsawdd Ras i Sero a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig. Mae 11 o'r pymtheg parc cenedlaethol yn y DU bellach wedi bodloni'r meini prawf aelodaeth.
- 1.3 Y nod yw i holl barciau cenedlaethol y DU fodloni'r meini prawf aelodaeth erbyn diwedd y flwyddyn hon, a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny yn gynnar yn 2024. Y cam nesaf allweddol yw i'r parciau cenedlaethol sy'n weddill ymrwmo'n gyhoeddus i nodau datgarboneiddio seiliedig ar wyddoniaeth a gyfrifwyd gan Small World Consulting.

**2. BE YDI RAS I SERO?**

- 2.1 Ras i Sero yw'r fenter arweinyddiaeth hinsawdd fyd-eang a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig, sy'n annog gweithredwyr anwladwriaethol (fel dinasoedd, awdurdodau lleol, busnesau, prifysgolion) i gymryd camau llym ac ar unwaith i haneru allyriadau byd-eang erbyn 2030 a darparu gwasanaeth byd di-garbon iachach a thecach.
- 2.2 Lansiwyd Ras i Sero yn ffurfiol ddwy flynedd yn ôl er mwyn:
  - Strwythuro rôl ar gyfer actorion / gweithredwyr di-wladwriaeth i helpu i ysgogi datgarboneiddio hollbwysig
  - Symud y ddadl fyd-eang o weithredu hirdymor 2050 i weithredu yn y tymor agos yn 2030
  - Canolbwyntio uchelgais ar 1.5 nid 2 radd

- Cyflwyno mwy o drylwyrredd a thryloywder
- Cadw'r ffocws byd-eang ar adeiladu dyfodol iachach tecach

Mae Ras i Sero bellach yn gyrru gweithredu digynsail yn fyd-eang.

### 3. **PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU A RAS I SERO:**

- 3.1 Mae effeithiau hinsawdd yn digwydd ynghynt na'r modelau a ragwelwyd. Mae pwyntiau tyngedfennol hollbwysig yn systemau naturiol y Ddaear eisoes yn cael eu torri gan effeithiau trychinebus tanau gwyllt a llifogydd ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen yn 2023. Mae dyfodol byd natur, a gwareiddiad fel y gwyddom, yn dibynnu ar gyflawni datgarboneiddio cyflymach ac adfer natur ar raddfa.
- 3.2 Mae gan barciau cenedlaethol yn fyd-eang rôl hollbwysig i'w chwarae wrth ymateb i'r argyfwng hwn - drwy arwain atafaelu carbon yn seiliedig ar natur ar raddfa tirwedd, a thrwy fod yn rhan o flaengaredd datgarboneiddio mewn lleoliad gwledig. Mae hon yn rôl strategol na all unrhyw endidau eraill ei harwain. Parciau cenedlaethol y DU fydd y parciau cenedlaethol cyntaf yn y byd i ymuno â Ras i Sero'r Cenhedloedd Unedig.

### 4. **YMUNO Â RAS I SERO:**

- 4.1 Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim. Mae pob aelod o Ras i Sero yn ymrwymo i'r pum maen prawf 'sylfaenol cychwynnol':
1. **Addewid:** gwneud y mwyaf o ymdrech tuag at neu y tu hwnt i gyfran deg o'r gostyngiad byd-eang o 50% mewn nwyon tŷ gwydr sydd ei angen erbyn 2030, a chyrraedd net sero erbyn 2050 fan bellaf.
  2. **Cynllunio:** o fewn 12 mis datblygu cynllun lleihau allyriadau ar sail tystiolaeth yn unol â'r addewid.
  3. **Bwrw Ymlaen:** cymryd camau ar unwaith tuag at gyflawni'r addewid.
  4. **Cyhoeddi:** ymrwymo i adrodd ar ddata a chamau gweithredu mewn perthynas â chyflawni'r addewid, yn gyhoeddus ac o leiaf bob blwyddyn - gan fwydo i Borthol Gweithredu Hinsawdd Byd-eang UNFCCC.
  5. **Perswadio:** alinio gweithgareddau lobïo ac eiriolaeth gyda net sero drwy gefnogi polisïau hinsawdd sy'n gyson â'r meini prawf Ras i Sero yn rhagweithiol.

### 5. **PARCIAU CENEDLAETHOL YN CYMRYD RÔL HINSAWDD ARWEINIOL:**

- 5.1 Mae ymrwymo i weithredu i gyrraedd nod datgarboneiddio ar gyfer y parc cenedlaethol yn golygu rôl arweiniol i awdurdod y parc cenedlaethol gan weithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr, trigolion, sefydliadau partner, rhanddeiliaid a'r cyhoedd – yn hytrach na disgwyliad y bydd gan awdurdod y parc cenedlaethol y pwerau a'r adnoddau i gyrraedd y targed ei hun. Mae'r rôl arweiniol hon yn un y mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn brofiadol ynddi. Mae aelodau dinasoedd ac awdurdodau lleol Ras i Sero yn mabwysiadu'r un ymagwedd ac nid yw'n unigryw i barciau cenedlaethol.

### 6. **Y GWAITH A WNAED HYD YN HYN TUAG AT YMUNO GYDA RAS I SERO:**

- 6.1 Mae parciau cenedlaethol y DU wedi bod yn gweithio tuag at ymuno â Ras i Sero ers dros flwyddyn. Bu pob parc cenedlaethol yn gweithio gyda Small World Consulting i ddeall ôl troed carbon eu hardal, a'r trywydd datgarboneiddio sydd ei

angen i gyd-fynd â Chytundeb Paris. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau. Mae un ar ddeg o'r pymtheg parc cenedlaethol yn y DU wedi mabwysiadu'n gyhoeddus nod Small World Consulting (neu'n agos ato) sy'n angenrheidiol i ymuno – sef yr 'addewid'.

## 7. CAMAU NESAF A'R AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU :

**Gwneud addewid** yn gyhoeddus i weithio tuag at nod datgarboneiddio Small World Consulting (neu'n agos ato). Gall hyn ddigwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

- Mewn Cynllun Rheoli
- Mewn Cynllun Partneriaeth
- Mewn strategaeth hinsawdd gyhoeddedig
- Penderfyniad Awdurdod wedi'i gyhoeddi
- Datganiad i'r cyfryngau

## 8. SUT MAE ERYRI YN CWRDD Â'R PUM MAEN PRAWF?

8.1 **GWNEUD ADDEWID:** Nid yw'r Awdurdod wedi gwneud addewid i ymrwymo i Ras i Sero eto, mae hyn yn bennaf oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'r hyn oedd yn ei olygu. Mae'r sefyllfa bellach yn llawer cliriach a'r prif offeryn mewn tasg mor arwyddocaol yw bod yn arweinydd. Derbyniodd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn llwyr nad yw llawer o'r offerynnau i gwrdd â thargedau heriol o'r fath wedi'u breinio i'r Awdurdodau.

8.2 **CYNLLUNIO:** Mae'r Awdurdod hwn wedi derbyn ac ystyried adroddiad Small World Consulting (yr ardal ddaearyddol) ac adroddiad Aquetera (ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes/ystâd). Mae'r ddau adroddiad hyn yn cael eu hystyried gan y Grŵp Tasg a Gorffen Carbon a grŵp Swyddogion Carbon. Mae canfyddiadau adroddiad Aquetera yn galluogi'r Awdurdod i symud ymlaen ar daith garbon niwtral gyda'r dystiolaeth angenrheidiol. Mae Small World Consultancy wedi nodi'r prif benawdau carbon ar gyfer yr ardal a dywedwyd yn flaenorol fod yr ysgogiadau i fynd i'r afael â'r rhain ar lefel genedlaethol.

Mae'r Awdurdod hefyd mewn sefyllfa lle mae'n ofynnol iddo adolygu ei ddau gynllun statudol yn ffurfiol.

Mae 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru wedi cyfrannu at blymio dwfn Llywodraeth Cymru i adferiad/dirywiad byd natur (30x30 ) ac rydym yn aros am y canlyniadau.

8.3 **BWRW YMLAEN:** Mae gweithredu wedi cychwyn ar y broses o gynllunio uchod, ac rydym yn bwrw ymlaen. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gweithgaredd Tirwedd Cymru ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru (4ydd i 8fed Rhagfyr 2023) wrth ledaenu canfyddiadau generig o adroddiad Small World Consulting, mentrau fel “Yr Wyddfa ddi-blastig” a chefnogi'r gwasanaeth Sherpa.

Mae'r Awdurdod hefyd yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd / Môn lle mai un o'r tri chanlyniad strategol yn eu datganiad llesiant yw “cydweithio i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Ddi-Garbon Net”.

- 8.4 **CYHOEDDI:** Bydd gofyn casglu data mewn fformat arbennig at ddibenion Ras i Sero. Mae swyddogion yn gweithio ar draws y 15 Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu ee sut rydym yn adrodd yn ôl i'n llywodraethau datganoledig.
- 8.5 **DYLANWADU:** Mae POB UN o'r 15 parc cenedlaethol yn darparu deunydd cyfathrebu ar gyfer materion amgylcheddol lleol. Mae'r teulu o 15 Parc Cenedlaethol newydd gomisiynu uned gyfathrebu newydd a gynhelir gan Awdurdod y Parc Ardal y Peak i ddarparu swyddogaeth gyfathrebu â ffocws ar gyfer y teulu o barciau Cenedlaethol, a fydd yn cynnwys cyfraniad sylweddol at yr ymrwymiad i Ras i Sero.

## 9. **GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU:**

- 9.1 Mae'r daith fel Awdurdod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 wedi cychwyn. Mae ein dau gynllun statudol yn cael eu hadolygu lle bydd newid hinsawdd yn rhan annatod o adolygiad o'r fath. Tasg gychwynol fydd casglu data yn flynyddol ond gobeithio y gellir cytuno ar y fformat lle na fyddai unrhyw ddyblygu mewn ymarfer o'r fath. Bydd angen sicrhau capasiti staff i fonitro a chefnogi unrhyw anghenion cyfathrebu.

## 10. **GWYBODAETH BELLACH:**

Gwefan Ras i Sero'r Cenhedloedd Unedig gan gynnwys meini prawf llawn ac aelodau: [-Home Climate Champions \(unfccc.int\)](https://climatechampions.unfccc.int/)  
[<https://climatechampions.unfccc.int/>](https://climatechampions.unfccc.int/)

## 11. **ARGYMHELLION:**

- 11.1 Ystyried yr adroddiad a nodi lle mae'r Awdurdod hwn ar daith o'r fath,  
11.2 Addunedu gyda Pharciau Cenedlaethol eraill y DU i Ras i Sero,  
11.3 Sicrhau bod yr egwyddorion sydd o dan sylw yn cael eu hystyried wrth adolygu ein cynlluniau statudol.

## EITEM RHIF 9

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	15 Tachwedd, 2023
<b>TEITL</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	I drafod yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r holiadur cysylltiedig a phenderfynu pa ymateb sydd ei angen

### 1 CEFNDIR

- 1.1 Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae copi o'r llythyr eglurhaol a dderbyniwyd oddi wrth Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghyd â chopi o'r Adroddiad drafft ei hun sydd unwaith eto wedi'i fyrhau'n sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol a chopi o'r holiadur cysylltiedig.
- 1.2 Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Awdurdod mae cylch gorchwyl y Panel yn cynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod hwn gadw at unrhyw benderfyniad a wneir gan y Panel.
- 1.3 Yn ddi-os, bydd Aelodau'n nodi o'r adroddiad drafft y bwriedir codi tâl presennol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a rolau cymwys yn unol â chyflogau cyfartalog eu hetholwyr gan ddefnyddio Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2022.

### 2 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

- 2.1 Mae'r Panel mewn perthynas ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi penderfynu y dylai fod cynnydd mewn cyflogau. O ganlyniad cynigir y dylai cyflogau sylfaenol aelodau gynyddu 6.06% ond y dylai fod cynnydd llai i elfen rôl y Cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau'r Awdurdod gan fod y rhain yn parhau i fod yn gysylltiedig â Band 5.
- 2.2 Mae'r cyflogau diwygiedig arfaethedig felly fel a ganlyn:
  - 2.2.1 Dylid cynyddu cyflog sylfaenol aelodau cyffredin APC o £4,964 i £5,265
  - 2.2.2 Dylid cynyddu uwch gyflog cadeirydd APC o £13,764 i £14,598

- 2.2.3 Dylid cynyddu uwch gyflog dirprwy gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau APC o £8,704 i £9,005
- 2.2.4 Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog APC
- 2.2.5 Telir uwch gyflog APC yn gynhwysol i gyflog sylfaenol APC
- 2.2.6 Ni all aelodau o brif awdurdodau lleol sy'n cael uwch gyflog Band 1 neu Fandiau 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC y maent wedi'u penodi iddo.
  
- 2.3 Nid oes unrhyw newidiadau i gostau teithio. Mae cyfraddau cynhaliaeth yn parhau i fod yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru.
  
- 2.4 Nid yw'r cyfraddau sy'n daladwy i Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi newid ond mae opsiwn bellach i dalu fesul awr am waith a wneir ac maent fel a ganlyn:
  - 2.4.1 Cadeirydd y Pwyllgor Safonau - £268 (4 awr a throsodd ) neu £134 (hyd at 4 awr) neu £33.50 (cyfradd yr awr)
  - 2.4.2 Aelodau cyffredin y Pwyllgor Safonau - £210 (4 awr a throsodd) neu £105 (hyd at 4 awr) neu £26.25 (cyfradd yr awr)
  
- 2.5 Fel sy'n glir o'r llythyr sy'n cyd-fynd â'r adroddiad mae'r cyfnod amser ar gyfer ystyried unrhyw sylwadau yn dod i ben ar 8 Rhagfyr ac felly mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod wneud sylwadau ar yr adroddiad drafft os yw'n dymuno. Gan barhau gyda'r broses fel y llynedd mae yna holiadur byr, a chroesewir barn yr Awdurdod cyn y cyflwynir ymateb. Wrth gwrs, mae croeso hefyd i aelodau gyflwyno eu hymateb unigol eu hunain i'r holiadur.

## **GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Os caiff yr adroddiad ei gyhoeddi heb newidiadau, bydd mân oblygiadau ynghlwm i'r adroddiad o ran adnoddau a fydd yn golygu y bydd angen cynyddu'r cyllidebau presennol.

## **ARGYMHELLIAD**

**Trafod yr Adroddiad Blynyddol drafft a phenderfynu ar ymateb yr Awdurdod.**

## **PAPURAU CEFNDIR**

**Adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r llythyr eglurhaol a'r holiadur cysylltiedig.**

**From:** [Sara.Rees@gov.wales](mailto:Sara.Rees@gov.wales) on behalf of [IRPMailbox@gov.wales](mailto:IRPMailbox@gov.wales)  
**To:** [IRPMailbox@gov.wales](mailto:IRPMailbox@gov.wales)  
**Subject:** RE: Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024 | Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report - February 2024  
**Date:** 17 October 2023 17:14:48  
**Attachments:** [panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.pdf](#)  
[Ymgynghoriad ar Adroddiad Drafft 2024 i 2025 Consultation on Draft Annual Report 2024 to 2025.docx](#)  
[independent-remuneration-panel-wales-draft-annual-report-2024-2025.pdf](#)

Your attachments have been security checked by Mimecast Attachment Protection. Files where no threat or malware was detected are attached.

<p><b><u>Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024</u></b></p> <p>Prynhawn da</p> <p>Rwy'n amgáu'r canlynol yn unol â gofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2024.</li><li>• Adroddiad Blynyddol Drafft – cwestiynau ymgynghori</li></ul> <p>Anfonwyd hwn hefyd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a phartïon eraill a chanddynt fuddiant.</p> <p>Mae'r adroddiad ar gael drwy'r ddolen a ganlyn:</p> <p><a href="#">Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2024 i 2025   LLYW.CYMRU</a></p> <p><b>Penderfyniadau drafft ar gyfer 2024 - 2025:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynnydd yn lwfans sylfaenol Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan fynd â'r cyflog sylfaenol i £5,265.</li></ul> <p>Mae taliadau uwch-gyflogau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol – cynnydd i £14,598.</li><li>• Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Parc</li></ul>	<p><b><u>Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report - February 2024</u></b></p> <p>Good afternoon</p> <p>I attach in accordance with the requirements of Section 147 of the Local Government (Wales) Measure 2011:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• The Independent Remuneration Panel for Wales draft Annual Report February 2024.</li><li>• Draft Annual Report - consultation questions</li></ul> <p>This has also been sent to the Minister for Finance and Local Government and other interested parties.</p> <p>You can find the report by using the following link:</p> <p><a href="#">Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report – February 2024</a></p> <p><b>Draft determinations for 2024 to 2025:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• An increase in the basic allowance for Members of National Park Authorities, taking the basic salary to £5,265.</li></ul> <p>Senior salary payments as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Chair of a National Park Authority – an increase to £14,598.</li><li>• Deputy Chair of a National Park Authority (where appointed) – an</li></ul>
--	--



<p>Cenedlaethol (os oes rhywun wedi'i benodi i'r swydd) – cynnydd i £9,005.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadeirydd Pwyllgor Awdurdod Parc Cenedlaethol neu uwch swydd arall – cynnydd i £9,005.</li> </ul> <p>Byddai'r Panel yn croesawu adborth am yr Adroddiad hwn ac mae wedi cynnwys cwestiynau ychwanegol y byddem yn gwerthfawrogi eich barn yn eu cylch (gweler y ddogfen sydd wedi'i hamgáu). Byddai'r Panel yn ddiolchgar hefyd pe gallech roi gwybod i'ch aelodau am gynnwys yr Adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau sydd gennych amdano.</p> <p>Gallwch gyflwyno adborth dwy lenwi a dychwelyd y ddogfen amgaeedig i <a href="mailto:IRPMailbox@gov.wales">IRPMailbox@gov.wales</a> neu, fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen ar ein <a href="#">gwefan</a>.</p> <p><a href="#">Mae croeso ichi hefyd anfon sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod:</a></p> <p>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Trydydd Llawr - Dwyrain Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>I ofyn am gopi caled o'r Adroddiad, anfonwch <a href="#">e-bost</a> atom neu ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.</p> <p>Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar <b>8 Rhagfyr 2023</b>.</p> <p>Cofion gorau</p> <p>IRPW Ysgrifenyddiaeth <a href="mailto:irpmailbox@gov.wales">irpmailbox@gov.wales</a></p>	<p>increase to £9,005.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Committee Chair of a National Park Authority or other senior post – an increase to £9,005.</li> </ul> <p>The Panel would welcome feedback on this Report and have included some additional questions where we would appreciate your views (see attached document). The Panel would also be grateful if you could make your members aware of the contents of the Report and make any comments you may have on the Report.</p> <p>You can submit feedback by completing and returning the attached document to <a href="mailto:IRPMailbox@gov.wales">IRPMailbox@gov.wales</a> or alternatively you can complete the form on our <a href="#">website</a>.</p> <p>You are also welcome to submit comments in writing to the address below:</p> <p>Independent Remuneration Panel for Wales Third Floor East Crown Buildings Cathays Park Cardiff CF10 3NQ</p> <p>To request a printed version of the Report please <a href="#">email us</a> or write to the address above.</p> <p>The consultation period will end on <b>8 December 2023</b>.</p> <p>Kind regards</p> <p>IRPW Secretariat <a href="mailto:irpmailbox@gov.wales">irpmailbox@gov.wales</a></p>
--	--

Sganiwyd y neges hon am bob feirws hysbys wrth iddi adael Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd o ddifrif yr angen i ddiogelu eich data. Os cysylltwch â Llywodraeth Cymru, mae ein [hysbysiad preifatrwydd](#) yn esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth a sut rydym yn diogelu eich preifatrwydd. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn

Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. On leaving the Welsh Government this email was scanned for all known viruses. The Welsh Government takes the protection of your data seriously. If you contact the Welsh Government then our [Privacy Notice](#) explains how we use your information and the ways in which we protect your privacy. We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



# Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

Hydref 2023

# Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

Rôl a Chyfrifoldebau'r Panel

Methodoleg

Trafodaethau a phenderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025

Crynodeb o'r Penderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

26  
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Rhagair

Croeso i Adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n amlinellu ein cynigionynglŷn â chyflog, treuliau a buddiannau i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub i'w cyflwyno o fis Ebrill 2024.

Bu hon yn flwyddyn o newid i'r Panel, gydag ymadawiad un aelod hirsefydlog a phenodiad dau aelod newydd. Hoffwn ddiolch i Helen Wilkinson am ei chyfraniad drosy blynyddoedd i'r Panel a dymuno'n dda iddi at y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, dim ond tri aelod o'r Panel oedd, sef lleiafswm yr aelodau a ganiateir er mwyn i gyfarfodydd y Panel wneud cworwm. Yn gynharach yn ystod y flwyddyn hon, llwyddwyd i benodi dau aelod newydd sy'n golygu bod gan y Panel bum aelod erbyn hyn. Hoffwn groesawu Dianne Bevan a Kate Watkins i'r Panel a diolch i Saz Willey yr Is-gadeirydd, a Bev Smith am eu cyfraniad drwy gydol y flwyddyn. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am aelodau'r Panel ar ein gwefan.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Rhan 8 (Y Mesur), sy'n rhoi'r awdurdod statudol dros waith y Panel, yn caniatáu i o leiaf 3 aelod a hyd at 7 aelod gael eu penodi.

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft hwn bellach yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Unwaith eto, rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol y byddem yn croesawu eich adborth arnynt. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ar fanylion y Penderfyniadau arfaethedig neu ar feysydd perthnasol eraill y dylai'r Panel eu hystyried yn eich barn chi.

Daw'r Ymgynghoriad i ben ar 8 Rhagfyr ac ar ôl trafod eich adborth, a rhoi sylw i unrhyw newid mewn amgylchiadau, bydd y Panel yn cyhoeddi ei Benderfyniadau Terfynol a'i Adroddiad Blynyddol erbyn 28 Chwefror 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

24wybodaeth am [hawlfraint](#).

Frances Duffy  
Cadeirydd

## Aelodau'r Panel

Saz Willey, Is-gadeirydd  
Bev Smith  
Dianne Bevan  
Kate Watkins

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau, ein Cynllun Strategol, ein trafodaethau ac ymchwil a thystiolaeth ategol ar y wefan [Gwefan y panel](#).

## Cyflwyniad

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol cyntaf. Mae hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023 a 2025 ac mae'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer ein trafodaethau a chyd-destun ehangach ein penderfyniadau. Mae'r yr elfennau allweddol wedi'u nodi isod o dan Rolau a Chyfrifoldebau'r Panel.

Ar ôl cryfhau'r Panel, roeddem yn gallu canolbwyntio ar lunio ein cynllun ymchwil a thystiolaeth i gefnogiein trafodaethau ar ein fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Caiff ein cynllun dystiolaeth ei gyhoeddi ar ein gwefan yn unol â'n nod o fod yn agored ac yn dryloyw yn ein holl benderfyniadau.

Ein nod o hyd yw sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg ac yn rhesymol. Gwnaethom gytuno i barhau i gysoni lefelau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun enillion cyfartalog yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yng

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

22 Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Nghymru (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel y prif feincnod wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar awdurdodau perthnasol. Ystyriodd y Panel dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus a'r effaith ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Er bod cyfanswm cost cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig yn gymharol isel yn nhermau'r cyllidebau cyffredinol, roedd y Panel yn ystyriol o'r pwysau economaidd a chyllidol cynyddol ar Brif Gynghorau.

Wrth wneud ein penderfyniad i barhau i gysylltu cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig agenillion cyfartalog eu hetholwyr, cred Panel o hyd y bydd pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol yn parhau i gefnogi aelodau etholedig a heb greu rhwystr i gyfranogi. Mae hon yn egwyddor bwysig, sy'n sail i'n hystyriaethau o gydnabyddiaeth ariannol briodol.

Yn unol â'n hymrwymiad i symleiddio prosesau adrodd a chydymffurfio, y flwyddyn hon, edrychodd y Panel ar y gofynion adrodd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Rydym yn parhau i gael ymholiadau ynglŷnâ thriniaeth TWE y lwfans gorfodol am weithio gartref (£156 y flwyddyn) a'r opsiwn o dalucyfradd safonol o £52 y flwyddyn am nwyddau traul. Byddwn yn diweddarau ein canllawiau ar y mater hwn, a ddylai roi eglurder i glercod lleol.

Rydym hefyd yn ystyriol o'r cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n penderfynu peidio â hawlio'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac er bod rhai yn parhau i wneud hyn, mae'r niferoedd yn lleihau. Credwn yn gryf y dylai cynghorwyr gael eu had-dalu am rai o'r treuliau y mae'n rhaid iddynt fynd iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob cyngor gyflwyno adroddiad i'r Panel bob blwyddyn, a chyhoeddi manylion ac enwau pob cynghorydd sy'n cael unrhyw dreuliau ar ei wefan. Mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaethom gytuno, o ran costau lwfansau gofal a chymorth personol, y byddai'n amhriodol enwi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

23 wybodaeth am [hawlfraint](#).

cynghorwyr unigol, ac y byddai'n ddigon rhestru'r cyfansymiau a dalwyd a chyfanswm nifer y derbynyddion.

Mae'r Panel yn teimlo y byddai'n briodol i hyn ymestyn i'r taliad gorfodol am weithio gartref, y lwfans cyfradd safonol am nwyddau traul a hawliadau teithio a chynhaliaeth. Bydd hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd cyhoeddus a phreifatrwydd unigolion, ac rydym yn gobeithio y bydd yn annog pawb i hawlio'r taliadau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn.

Felly, byddwn yn darparu adroddiad templed newydd i'w ddefnyddio o fis Medi 2024 a byddwn yn parhau i fonitro lefel y taliadau a wneir.

Y maes olaf a ystyriwyd gan y Panel y flwyddyn hon oedd y dull o gyfrifo taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig o Brif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Yn dilyn adborth ar Adroddiad Blynyddol y flwyddyn diwethaf ac ymholiadau a godwyd drwy gydol y flwyddyn gan rai aelodau cyfetholedig a chan sawl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, cymerodd y Panel dystiolaeth gan y gohebwyrs ynglŷn ag effaith y cynnydd yn nifer yr aelodau cyfetholedig a natur newidiol patrymau gwaith. Roedd hyn yn dangos nad oedd y trefniant presennol o gyfradd hanner diwrnod am unrhyw beth hyd at 4 awr a chyfradd diwrnod llawn am unrhyw beth dros hynny, yn ddigon hyblyg i adlewyrchu'r patrymau gwaith sy'n fwy arferol erbyn hyn, yn bennaf o ganlyniad i fwy o weithio ar-lein neu weithio hybrid.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd i'r swyddog perthnasol lleol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod a phryd y dylid defnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Mae'r Panel yn ymwybodol o adborth y gall ein gwefan fod yn anodd i'w defnyddio ac nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i'r Penderfyniad cywir i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

24 wybodaeth am [hawlfraint](#).



yndrin â mater penodol, yn enwedig i aelodau etholedig neu swyddogion newydd. Felly, byddwn yn diweddarau'r dolenni ar y wefan ac yn creu dolen newydd i dudalen fydd yn nodi'r holl Benderfyniadau cyfredol y dylid eu cymhwyso. Caiff ei diweddarau bob blwyddyn pan gaiff yr Adroddiad Blynyddol Terfynol ei gyhoeddi, a'r gobaith yw y bydd hyn yn haws i'w ddefnyddio na gorfod cyfeirio at Adroddiad pob blwyddyn.

Rydym hefyd yn adolygu ein tudalennau ar Ganllawiau (a elwid yn Rheoliadau gynt) a Chwestiynau Cyffredin.

## Rôl a Chyfrifoldebau'r Panel

### Ein Rôl

Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig a chyfetholedig y sefydliadau canlynol a'r trefniadau ar eu cyfer:

- Prif
- Gyngorau: Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
- Cyngorau Cymuned a Thref
- Cyngorau cymuned a thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod roi'r penderfyniadau a wneir ganddo ar waith.

Rydym yn penderfynu ar y canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

25wybodaeth am [hawlfraint](#).

- y strwythur cyflog ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau
- y math o lwfansau a delir i aelodau a'u natur
- a yw taliadau yn orfodol neu a oes rhywfaint o hyblygrwydd lleol
- trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol
- trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Ein nod cyffredinol:

- cefnogi democratiaeth leol a rhoi llais i gymunedau, drwy sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth ariannol priodol a theg, sy'n annog cynhwysiant a chyfranogiad

Ein nodau:

- dylai ein Penderfyniadau sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn rhesymol ac yn werth am arian i drethdalwyr, ac y cânt eu pennu yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru
- dylai ein Penderfyniadau gefnogi aelodau etholedig o amrywiaeth eang o gefndiroedd
- ni ddylai lefelau cydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i gyfranogi

Ein hamcanion strategol:

- gwneud Penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- cyfathrebu mewn ffordd glir a hygyrch
- mynd ati i ymgysylltu ac ymgynghori'n rhagweithiol
- symleiddio trefniadau cydymffurfio ac adrodd
- cydweithio

Y Panel:

- Frances Duffy (Cadeirydd)
- Saz Willey (Is-gadeirydd)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

26 wybodaeth am [hawlfraint](#).

- Dianne Bevan (Aelod)
- Bev Smith (Aelod)
- Kate Watkins (Aelod)

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Panel ar [wefan y Panel](#).

## Methodoleg

Fel y noda ein hamcanion strategol, mae'r Panel wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Y flwyddyn hon, gwnaethom baratoi papur tystiolaeth ac ymchwil i ddwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau o wybodaeth a ystyriwyd gan y Panel wrth wneud ei Benderfyniadau drafft. Rhoddodd amrywiaeth eang o ddata, tystiolaeth a ffactorau cyd-destunol er mwyn llywio proses gwneud penderfyniadau'r Panel mewn perthynas â'i Benderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 i 2025. Roedd hyn yn cynnwys:

- data ar enillion wythnosol cyfartalog yn y DU ac yng Nghymru, gan gynnwys ASHE yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
- cyfraddau chwyddiant CPIH a CPI blynyddol
- meincnodau, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yn yr Alban
- ymchwil i lwyth gwaith cynghorwyr, safbwyntiau ac agweddau tuag at gydnabyddiaeth ariannol ac amrywiaeth (Llywodraeth Cymru)
- Canfyddiadau Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru (2019)
- data a gasglwyd ar nifer y cynghorwyr sy'n hawlio cydnabyddiaeth ariannol a phe cynnau buddiannau
- data ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol

Caiff y set gyflawn o dystiolaeth ac ymchwil a ystyriwyd ei chyhoeddi ar ein [gwefan](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

27 wybodaeth am [hawlfraint](#).

Bu'r y Panel yn trafod uniongyrchol â grwpiau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i phwyllgor i Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, Un Llais Cymru, Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a Chymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r trafodaethau hyn yn rhoi cyfle i'r Panel ystyried safbwyntiau ynglŷn â'r trefniadau presennol, effaith penderfyniadau ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithredu'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Mae hefyd yn gyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y bydd angen i'r Panel eu hystyried o bosibl mewn perthynas â'i brosesau gwneud penderfyniadau.

Helpodd y Panel i hwyluso sesiynau yn ystod digwyddiadau "Amrywiaeth mewn Democratiaeth" yn gynharach eleni. Drwy hyn, cawsom gyfle i glywed profiadau uniongyrchol nifer o aelodau etholedig, darpar ymgeiswyr a sefydliadau sy'n gweithio i ehangu cynrychioliaeth mewn llywodraeth leol. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth honno i lywio'r adroddiad hwn ac archwilio meysydd i'w hystyried yn y dyfodol.

Y flwyddyn hon, canolbwyntiodd hyn ar dri phrif fater fforddiadwyedd, taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig a gofynion adrodd i Gynghorau Cymuned a Thref. Hoffai'r Panel ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein trafodaethau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy adborth a chwestiynau am ein hadroddiad diwethaf.

Bydwn nawr yn ymgynghori ar gynigion y Panel ac ar ôl ystyried y safbwyntiau a gawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn bydd y Panel yn gwneud ei benderfyniadau terfynol a chyhoeddi Adroddiad Terfynol 2024 i 2025 ym mis Chwefror 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

28 wybodaeth am [hawlfraint](#).

# Trafodaethau a phenderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025

## Cyflog sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau: Penderfyniad 1

Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am ymgymryd â chyfrifoldeb cynrychioliaeth gymunedol ac am gymryd rhan yn swyddogaethau craffu, swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraeth leol. Mae'n seiliedig ar yr hyn sy'n gyfwerth â gweithio tri diwrnod yr wythnos yn amser llawn. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad hwn o ran amser yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2024 i 2025.

Mae'r Panel yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn ystyriol o'n Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychioliaeth.

Nododd y Panel hefyd, yn y cylchoedd etholiadol blaenorol, fod cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr dipyn yn is na meincnod allweddol Enillion Cyfartalog yr Awr yng Nghymru (ASHE) a bod angen codiad sylweddol felly yn 2022.

Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ei bod yn briodol cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd y cyflog sylfaenol yn gyson â thair rhan o bump o ASHE 2022 i Gymru gyfan, sef y ffigur diweddaraf sydd ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Y ffigur fydd £18,666.

## Cyflogau a delir i Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

29wybodaeth am [hawlfraint](#).

## aelodau Llywyddol prif gynghorau: Penderfyniad 2

Bydd y terfyn ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn parhau.

Mae'r holl uwch gyflogau yn cynnwys taliad y cyflog sylfaenol. Cydnabyddir lefelau gwahanol cyfrifoldeb ychwanegol pob rôl a rhwng pob rôl mewn fframwaith â bandiau. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r bandiau eleni. Bydd yr elfen cyflog sylfaenol yn cynyddu yn unol ag ASHE a bydd y cynnydd hwn hefyd yn gymwys i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3 a 4. Lle y telir Band 5, nid oes unrhyw gynnydd yn yr elfen rôl am fod y band hwn wedi'i rewi dros dro. Bydd y cynnydd yn y cyflog sylfaenol yn gymwys.

Felly, cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £69,998. Penderfynwyd ar yr holl daliadau eraill wrth gyfeirio at y cyflog hwn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

### Grŵp A

- Caerdydd
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe

## Tabl 1 Cyflogau a delir i Aelodau Sylfaenol, Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac Aelodau Llywyddol Prif Gynghorau

Disgrifiad	Swm
Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig)	£18,666

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

30 wybodaeth am [hawlfraint](#).

Disgrifiad	Swm
Band 1 Arweinydd	£69,998
Band 1 Dirprwy Arweinydd	£48,999
Band 2 Aelodau Gweithrediaeth	£41,999
Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)	£27,999
Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf	£27,999
Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir)	£22,406
Pennaeth Dinesig (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir)	£22,406
Aelod Llywyddol (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Aelod Llywyddol (sylfaenol yn unig)	£18,666

## Grŵp B

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Sir Gaerfyrddin
- Conwy

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

33wybodaeth am [hawlfraint](#).

- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Casnewydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

## Tabl 1 Cyflogau a delir i Aelodau Sylfaenol, Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac Aelodau Llywyddol Prif Gynghorau

Disgrifiad	Swm
Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig)	£18,666
Band 1 Arweinydd	£62,998
Band 1 Dirprwy Arweinydd	£44,099
Band 2 Aelodau Gweithrediaeth	£37,799
Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)	£27,999
Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf	£27,999
Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir)	£22,406

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

32 wybodaeth am [hawlfraint](#).



Disgrifiad	Swm
Pennaeth Dinesig (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir)	£22,406
Aelod Llywyddol (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Aelod Llywyddol (sylfaenol yn unig)	£18,666

## Grŵp C

- Blaenau Gwent
- Ceredigion
- Sir Ddinbych
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Torfaen
- Ynys Môn

## Tabl 1 Cyflogau a delir i Aelodau Sylfaenol, Uwch-aelodau, aelodau Dinesig ac Aelodau Llywyddol Prif Gynghorau

Disgrifiad	Swm
Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig)	£18,666

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

33 wybodaeth am [hawlfraint](#).

<b>Disgrifiad</b>	<b>Swm</b>
Band 1 Arweinydd	£59,498
Band 1 Dirprwy Arweinydd	£41,649
Band 2 Aelodau Gweithrediaeth	£35,699
Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)	£27,999
Band 4 Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf	£27,999
Band 5 Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill (os y'i telir)	£22,406
Pennaeth Dinesig (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir)	£22,406
Aelod Llywyddol (os y'i telir)	£27,999
Dirprwy Aelod Llywyddol (sylfaenol yn unig)	£18,666

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig. Bydd yr holl Benderfyniadau cyfredol ym cael eu cyhoeddi ar ein [gwefan](#).

Ni wnaed unrhyw newidiadau i lwfansau Teithio a Chynhaliaeth; Cymorth Gofal a Phersonol; Absenoldeb Salwch; Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth, cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

34 wybodaeth am [hawlfraint](#).

## Cyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu: Penderfyniad 3

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i fod yn gyson â Band 3 a chaiff ei bennu ar £9,333.

Pennir cyflog is-gadeirydd yn 50% o gyflog y Cadeirydd, sef £4,667.

Ni fydd unrhyw newidiadau eraill.

## Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 4

Ffurfiwyd y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru, Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, i ddiogelu tirweddau ysblennydd a chynnig cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. [Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995](#) at greu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) ar gyfer pob parc. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebir gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebir gan gyngor eu trin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol.

Ffurfiwyd y tri gwasanaeth tân ac achub (ATAau) yng Nghymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru, fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996. Maent yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y Prif Gynghorau o fewn ardal pob gwasanaeth tân ac achub.

Yn unol â phenderfyniad y Panel i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, bydd lefel cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyffredin yn APCau a ATAau hefyd yn cynyddu yn unol ag ASHE.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

35 wybodaeth am [hawlfraint](#).

Bydd cydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion yn parhau'n gysylltiedig â chyflog uwch-aelod Band 3 prif gyngor. Felly, bydd eu helpen rôl yn cynyddu'n unol â hynny. Bydd cysylltiad Dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau ac uwch swyddi eraill a delir â Band 5 yn parhau. Mae'n hyn yn golygu y bydd elfen rôl eu cyflog yn parhau i gael ei rhewi dros dro. Ceir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau APCau ac ATAAu yn Nhabl 2.

## Tabl 2: Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	Swm
Cyflog sylfaenol i aelodau cyffredin	£5,265
Cadeirydd	£14,598
Dirprwy gadeirydd (os penodir un)	£9,005
Cadeirydd Pwyllgor neu uwch swydd arall	£9,005

## Tabl 2: Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

Awdurdodau Tân ac Achub	Swm
Cyflog sylfaenol i aelodau cyffredin	£2,632
Cadeirydd	£11,965

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

36 wybodaeth am [hawlfraint](#).

<b>Awdurdodau Tân ac Achub</b>	<b>Swm</b>
Dirprwy gadeirydd (os penodir un)	£6,372
Cadeirydd Pwyllgor neu uwch swydd arall	£6,372

Cyhoeddir yr holl Benderfyniadau cyfredol, gan gynnwys cyfyngiadau ar dderbyn lwfansau dwbl, ar ein gwefan. Heblaw am y codiadau uchod, ni chynigir unrhyw newidiadau y flwyddyn hon.

## **Taliadau a wneir i aelodau etholedig Prif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 5**

Mae'r Penderfyniad cyfredol (a wnaed yn Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023) yn nodi y dylai aelodau cyfetholedig y cyrff perthnasol gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Hefyd, gall y swyddog perthnasol benderfynu ar gyfanswm y diwrnodau y rhoddir cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer mewn blwyddyn a phennu amser rhesymol am baratoi ar gyfer cyfarfodydd.

Mae'r Panel wedi nodi'r newidiadau i arferion gwaith, a roddwyd ar waith yn ystod COVID-19 ac sydd bellach yn dod yn fwy arferol, sydd wedi golygu newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddiant ar-lein, sydd yn aml yn fyr, yn ogystal â chyfarfodydd pwyllgor mwy rheolaidd. Mae'r Panel hefyd wedi cael adborth gan Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd yn codi'r mater hwn.

Ystyriodd y Panel newid i gyfradd yr awr. Byddai hyn yn adlewyrchu'n well y ffyrdd newydd o weithio a'r oriau a weithiwyd mewn gwirionedd. Fodd bynnag,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

37 wybodaeth am [hawlfraint](#).

cydnabu'r Panel na fyddai hyn bob amser yn briodol o bosibl, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb y disgwylir iddynt bara sawl awr.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr fel y nodir yn Nhabl 3.

### **Tabl 3: Taliadau a wneir i aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

<b>Rôl</b>	<b>Taliad cyfradd fesul awr</b>	<b>Cyfradd talu hyd at 4 awr</b>	<b>Cyfradd talu 4 awr a throsodd</b>
Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau archwilio	£33.50	£134	£268
Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	£29.75	£119	£238
Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau; Pwyllgor Craffu Addysg; Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio	£26.25	£105	£210
Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n aelodau o Bwyllgorau Safonau Prif Gynghorau	£26.25	£105	£210

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

38 wybodaeth am [hawlfraint](#).

## Cynghorau Cymuned a Thref

Mae'r Panel yn parhau i wneud taliadau am gostau ychwanegol gweithio gartref a thaliadau am nwyddau traul swyddfa yn orfodol. Ni fydd unrhyw newid i'r Penderfyniad a wnaed y llynedd.

## Taliadau Gorfodol: Penderfyniad 6

### Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref

Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.

### Taliad penodol am nwyddau traul

Mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae'n rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Mater i bob cyngor yw gwneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y caiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, yn flynyddol neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd nodi a fydd unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu sy'n newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu hadennill, a sut.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

39wybodaeth am [hawlfraint](#).

## Digolledu am Golled Ariannol: Penderfyniad 7

Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol. Ni chafodd y swm am golled ariannol ei gynyddu y llynedd.

Yn flaenorol, penderfynodd y Panel y dylid pennu lefel briodol o daliadau ar gyfradd ddyddiol ASHE.

Er mwyn cadw'r cysylltiad hwn, cynigir y dylai'r ffigurau ar gyfer 2024 bellach gael eu pennu fel a ganlyn: £119.62 am ddiwrnod llawn a £59.81 am hanner diwrnod.

## Gofynion Adrodd: Penderfyniad 8

Mae'n ofynnol i Gyngorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a hefyd ei gyhoeddi ar eu gwefan. Mae'r Panel wedi darparu ffurflen dempled at ddefnydd clercod.

Mae'r Panel wedi trafod ac wedi ystyried newid y gofynion ar Gyngorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu datganiad o daliadau. Nod y Panel yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac annog Cyngorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i'r datganiadau eu dangos, sef y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

46 wybodaeth am [hawlfraint](#).



## Taliadau i gynghorau cymuned a thref

Math o daliad	Grŵp	Gofyniad
Ad-daliad am amser a dreulir ar faterion Cynghorau Cymuned a Thref (a elwid gynt yn Daliad Sylfaenol)	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	£156 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang o ganlyniad i weithio gartref
Ad-daliad am nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	£52 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £52 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £1 yr wythnos) tuag at gost nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref
Taliad am Uwch-rôl	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Gorfodol i un aelod; dewisol i hyd at saith aelod
Maer neu Gadeirydd Cyngor	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Dewisol, hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd Cyngor	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Dewisol, hyd at uchafswm o £500
Lwfans mynychu	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Dewisol
Colled ariannol	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Dewisol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

43 wybodaeth am [hawlfrain](#)t.

		etholwyr)
Teithio a chynhaliaeth	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Dewisol
Costau gofal	1 (Dros 14,000 o etholwyr)	Gorfodol
Ad-daliad am amser a dreulir ar faterion Cynghorau Cymuned a Thref (a elwid gynt yn Daliad Sylfaenol)	2 (10,000 i 13,999 o etholwyr)	£156 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref
Ad-daliad am nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref	2 (10,000 i 13,999 o etholwyr)	£52 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £52 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £1 yr wythnos) tuag at gost nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref
Taliad am Uwch-rôl	2 (10,000 i 13,999 o etholwyr)	Gorfodol i un aelod; dewisol i hyd at bum aelod
Maer neu Gadeirydd Cyngor	2 (10,000 i 13,999 o etholwyr)	Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	2 (10,000 i	Dewisol: hyd at uchafswm o £500

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

42 wybodaeth am [hawlfraint](#).

---

Cyngor 13,999 o  
etholwyr)

---

Lwfans Mynychu 2 Dewisol  
(10,000 i  
13,999 o  
etholwyr)

---

Colled Ariannol 2 Dewisol  
(10,000 i  
13,999 o  
etholwyr)

---

Teithio a  
Chynhaliaeth 2 Dewisol  
(10,000 i  
13,999 o  
etholwyr)

---

Cost Gofal 2 Gorfodol  
(10,000 i  
13,999 o  
etholwyr)

---

Ad-daliad am amser a dreulir ar faterion Cynghorau Cymuned a Thref (a elwid gynt yn Daliad Sylfaenol) 3 (5,000 i 9,999 o etholwyr) £156 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref

---

Ad-daliad am nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref 3 (5,000 i 9,999 o etholwyr) £52 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £52 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £1 yr wythnos) tuag at gost nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

43 wybodaeth am [hawlfraint](#).

Taliad am Uwch-rôl	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol i hyd at dri aelod
Maer neu Gadeirydd Cyngor	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd Cyngor	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £500
Lwfans Mynychu	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol
Colled Ariannol	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Dewisol
Cost Gofal	3 (5,000 i 9,999 o etholwyr)	Gorfodol
Ad-daliad am amser a dreulir ar faterion Cynghorau Cymuned a Thref (a elwid gynt yn Daliad Sylfaenol)	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	£156 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

44 wybodaeth am [hawlfraint](#).

---

Ad-daliad am nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	£52 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £52 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £1 yr wythnos) tuag at gost nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref
---	------------------------------	---

---

Taliad am Uwch-rôl	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol i hyd at dri aelod
--------------------	------------------------------	----------------------------

---

Maer neu Gadeirydd Cyngor	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £1,500
---------------------------	------------------------------	----------------------------------

---

Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd Cyngor	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £500
--	------------------------------	--------------------------------

---

Lwfans Mynychu	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol
----------------	------------------------------	---------

---

Colled Ariannol	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol
-----------------	------------------------------	---------

---

Teithio a Chynhaliaeth	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Dewisol
------------------------	------------------------------	---------

---

Cost Gofal	4 (1,000 i 4,999 o etholwyr)	Gorfodol
------------	------------------------------	----------

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

45 wybodaeth am [hawlfraint](#).

---

Ad-daliad am amser a dreulir ar faterion Cynghorau Cymuned a Thref (a elwid gynt yn Daliad Sylfaenol)	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	£156 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref
---	----------------------------	---

---

Ad-daliad am nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	£52 tâl gorfodol i bob aelod. Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £52 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £1 yr wythnos) tuag at gost nwyddau traul swyddfa wrth weithio gartref
---	----------------------------	---

---

Taliad am Uwch-rôl	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol hyd at 3 Aelod
--------------------	----------------------------	------------------------

---

Maer neu Gadeirydd Cyngor	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £1,500
---------------------------	----------------------------	----------------------------------

---

Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd Cyngor	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol hyd at uchafswm o £500
--	----------------------------	--------------------------------

---

Lwfans Mynychu	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol
----------------	----------------------------	---------

---

Colled Ariannol	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol
-----------------	----------------------------	---------

---

Teithio a Chynhaliaeth	5 (O dan 1,000 o etholwyr)	Dewisol
------------------------	----------------------------	---------

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

46 wybodaeth am [hawlfraint](#).



---

etholwyr)

---

Cost Gofal 5 (O dan Gorfodol  
1,000 o  
etholwyr)

---

Ni wnaed unrhyw newidiadau i daliadau am ymgymryd ag uwch-rolau; lwfansau Teithio a Chynhaliaeth; Lwfans Gofal a Chymorth Personol na Lwfans Mynychu.

Bydd yr holl Benderfyniadau cyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Crynodeb o'r Benderfyniadau ar gyfer 2024 i 2025

### Penderfyniad 1

Caiff lefel sylfaenol cyflog i aelodau etholedig prif gynghorau ei phennu ar £18,666.

### Penderfyniad 2

Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £69,998. Penderfynwyd ar yr holl daliadau eraill wrth gyfeirio at y cyflog hwn. Nodir pob taliad yn Nhabl 1.

### Penderfyniad 3

Cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £9,333. Cyflog is-gadeirydd fydd £4,667.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

48 wybodaeth am [hawlfraint](#).



## Penderfyniad 4

Mae cyflog sylfaenol aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu. Nodir pob taliad yn Nhabl 2.

Bydd yr holl Benderfyniadau cyfredol, gan gynnwys cyfyngiadau ar dderbyn lwfansau dwbl, yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Heblaw am y codiadau uchod, ni chynigir unrhyw newidiadau y flwyddyn hon.

## Penderfyniad 5

O ran taliadau i aelodau cyfetholedig, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Nid yw cyfraddau diwrnod llawn na hanner diwrnod wedi newid ers 2023-24. Yr unig newid yw cyfraddau yr awr, fel y'u nodir yn Nhabl 3.

## Penderfyniad 6

Bydd aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref. Ac mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae'n rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

## Penderfyniad 7

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

49 wybodaeth am [hawlfraint](#).

Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol. Ni chafodd y swm am golled ariannol ei gynyddu y llynedd.

Yn flaenorol, penderfynodd y Panel y dylid pennu lefel briodol o daliadau ar gyfradd ddyddiol ASHE.

Er mwyn cadw'r cysylltiad hwn, cynigir y dylai'r ffigurau ar gyfer 2024 bellach gael eu pennu fel a ganlyn: £119.62 am ddiwrnod llawn a £59.81 am hanner diwrnod.

## **Penderfyniad 8**

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i'r datganiadau eu dangos, sef y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.

Mae pob Penderfyniad arall a nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol](#) 2023 i 2024 y Panel yn parhau'n ddilys a dylent gael eu cymhwyso.

### **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

50 **wybodaeth am [hawlfraint](#).**

Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2024

Independent Remuneration Panel for Wales draft Annual Report, February 2024

## Ymgynghoriad ar Adroddiad Drafft 2024 i 2025

Rydym yn croesawu adborth ar yr Adroddiad drafft hwn ac rydym wedi cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol lle y byddem yn gwerthfawrogi clywed eich barn. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar **8 Rhagfyr 2023** a gallwch naill ai anfon eich sylwadau dros e-bost neu gwblhau'r ffurflen ar ein [gwefan](#).

Mae croeso hefyd ichi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

I ofyn am fersiynau printiedig o'r Adroddiad, anfonwch e-bost atom neu ysgrifennwch at:

Mae croeso hefyd ichi anfon sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

I ofyn am fersiynau printiedig o'r Adroddiad, gallwch anfon [e-bost](#) atom neu ysgrifennu at:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol  
Trydydd Llawr - Dwyrain  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

### **Cwestiwn 1 - Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)**

Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn ystyriol o'n Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychioliaeth. Felly, rydym yn cynnig y dylid cynyddu eu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog eu hetholwyr.

**A ydych chi'n credu bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chynabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?**

Ydw  
Nac ydw  
Dim barn


Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

## Cwestiwn 2 – Hyblygrwydd lleol ar gyfer taliadau i unigolion cyfetholedig

Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth y byddai'n fwy costeffeithiol ac yn decach i roi hyblygrwydd o ran talu'r rhai sy'n aelodau cyfetholedig o bwyllgorau Prif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

**A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?**

Ydw  
Nac ydw  
Dim barn


Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

### Cwestiwn 3 – Annog teithio cynaliadwy

Hoffai'r Panel sicrhau ein bod yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein penderfyniadau ynglŷn â chydabyddiaeth ariannol. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau mewn llawer o gyrff yng Nghymru sy'n annog teithio cynaliadwy ac rydym wedi cyngori y dylai aelodau etholedig, os oes modd, gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

**A oes gennych unrhyw enghreifftiau da o arferion da neu syniadau eraill ynglŷn â sut y gallem ddefnyddio ein pwerau i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith aelodau?**

Oes

Nac oes

Dim barn

Unrhyw sylwadau ychwanegol

#### Cwestiwn 4 – Ymwybyddiaeth o hawliau cynrychiolwyr

Mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig lleol o'r taliadau y maent yn gallu eu hawlio. Hoffem glywed a yw hyn yn broblem sylweddol, ac os felly, byddwn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhellach, drwy dargedu meysydd lle y gall hyn fod yn broblem.

**Nodwch pa fath o gorff rydych yn ei wasanaethu (dewiswch bob un sy'n gymwys):**

Prif Gyngor	<input type="checkbox"/>
Cyngor Cymuned neu Gymuned Tref	<input type="checkbox"/>
Awdurdod Tân ac Achub	<input type="checkbox"/>
Awdurdod Parc Cenedlaethol	<input type="checkbox"/>

**Beth yw eich statws?**

Aelod	<input type="checkbox"/>
Aelod Cyfetholedig	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

**A ydych chi'n gwybod bod gennych hawl i rai neu bob un o'r canlynol?**

- Cydnabyddiaeth ariannol am eich rôl

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>

- Pensiwn (prif gynghorau yn unig)

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>

- Ad-daliad am dreuliau

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>

- Ad-daliad am gyfrifoldebau gofalu

Ydw

Nac ydw


- Taliadau absenoldeb teuluol (Prif Gynghorau yn unig)

Ydw

Nac ydw


**Pa gamau y mae eich cyngor neu'ch awdurdod yn eu cymryd i sicrhau bod ei aelodau etholedig a'i aelodau cyfetholedig yn ymwybodol o'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt?**

--



## Cwestiwn 5 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref

Mae'n ofynnol i Gyngorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a chyhoeddi hyn ar eu gwefan hefyd. Mae'r Panel wedi darparu templed o ffurflen i glercod ei defnyddio. Mae'r Panel wedi trafod ac ystyried newid y gofynion ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu ffurflen datgan taliadau. Nod y Panel yw symleiddio gweinyddiaeth ac annog Cyngorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, bod angen i'r ffurflenni ddangos cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllwyd uchod. Dyna'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref, y lwfans traul cyfradd sefydlog o £52 a'r costau teithio a chynhaliadaeth a dalwyd.

Mae hyn yn dod â'r rhain yn unol ag adrodd costau gofal a lwfansau cymorth personol.

A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Beth yw'r rhesymau dros eich barn?

## Cwestiwn 6 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer cyrff eraill

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, rydym yn ystyried caniatáu cyfuno costau teithio a chynhaliadau aelodau prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, a byddai gennym ddiddordeb yn eich barn.

**A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?**

Ydw

Nac ydw

Dim barn


Beth yw'r rhesymau dros eich barn?

## Consultation on Draft Report 2024 to 2025

We welcome feedback on this draft Report and have included some additional questions where we would appreciate your views. The consultation period will end on the **8 December 2023**, and you can either [email us](#) your comments or complete the form on our [website](#).

You are also welcome to submit comments in writing to the address below.

To request a printed versions of the Report please [email us](#) or write to:

Independent Remuneration Panel for Wales  
Third Floor East  
Crown Buildings  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

### **Question 1 - Uplift of remuneration using the Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE)**

The Panel is fully aware of the current constraints on public funding and the impact its decisions will have on the budgets of Principal Authorities. The Panel is also mindful of our Aims and Objectives to provide a fair and reasonable remuneration package to support elected members and to encourage diversity of representation. We therefore propose to uplift their remuneration based on the average earnings of their constituents.

**Do you think that the Panel has struck the right balance between affordability and adequate remuneration for representatives? If not, do you have other suggestions?**

Yes

No

No Opinion


Any additional comments

--

## **Question 2 - Local flexibility for payments to co-opted individuals**

The Panel has received evidence that it would be more cost effective and fairer to provide for flexibility in paying those who are co-opted to serve on committees of Principal Councils, National Park Authorities and Fire and Rescue Authorities.

The Panel has therefore proposed there should be local flexibility for the relevant officer to decide when it will be appropriate to apply a day or half day rate or to use an hourly rate where it is sensible to aggregate a few short meetings.

**Do you agree with this proposal? If not, do you have any suggested alternatives?**

Yes

No

No Opinion

Any additional comments

### **Question 3 - Encouraging sustainable travel**

The Panel would like to ensure that we support environmental sustainability in our decisions about remuneration. We are aware that there are schemes in many bodies in Wales which encourage sustainable travel and we have advised that, if possible, elected members should be encouraged to participate in these schemes.

**Do you have any examples of good practice or other ideas of ways in which we might use our powers to encourage more sustainable travel among members?**

Yes

No

No Opinion

Any additional comments

#### Question 4 - Awareness of the entitlements of representatives

The Panel has seen evidence of a lack of awareness amongst local elected members of the payments to which they are entitled. We would like to find out if this is a significant issue, and if so, we will aim to raise awareness further, targeted at areas where this may be a problem.

**Please identify which type of body you serve (select all that apply):**

Principal Council	<input type="checkbox"/>
Community or Town Council	<input type="checkbox"/>
Fire and Rescue Authority	<input type="checkbox"/>
National Park Authority	<input type="checkbox"/>

What is your status?

Member	<input type="checkbox"/>
Co-opted Member	<input type="checkbox"/>
Other	<input type="checkbox"/>

**Did you know that you may be entitled to some of or all the following?**

- Remuneration for your role

Yes	<input type="checkbox"/>
No	<input type="checkbox"/>

- Pension (Principal Councils only)

Yes	<input type="checkbox"/>
No	<input type="checkbox"/>

- Reimbursement of expenses

Yes	<input type="checkbox"/>
No	<input type="checkbox"/>

- Reimbursement for caring responsibilities

Yes

No


- Family absence payments (Principal Councils only)

Yes

No


**What steps does your council or authority take to make its elected members and co-opted members aware of their entitlements?**

--



### **Question 5 - Publication of consolidated sums for Community and Town Councils**

Community and Town Councils are required to submit an annual statement of payments to the Panel by 30 September each year, and also publish this on their website. The Panel have provided a template return for clerks to use. The Panel have discussed and considered changing the requirements for Community and Town Councils when submitting their statement of payment returns. The Panel's aim is to simplify administration and encourage Councils to ensure all mandatory payments are made to individual members.

The Panel proposes that from September 2024, the returns need only show the total amounts paid in respect of the mandatory payments mentioned above. That is the £156 contribution to the costs of working from home, the £52 set rate consumables allowance and the travel and subsistence expenses paid.

This brings these in line with the reporting of the costs of care and personal assistance allowances.

**Do you agree that these figures may be published as a global total rather than individually?**

Yes

No

No View

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

What are the reasons for your view?

**Question 6 - Publication of consolidated sums for other bodies**

In future reports, we are thinking of allowing consolidation of the travel and subsistence expenses of members of principal councils, National Park Authorities and Fire and Rescue Authorities and would be interested in your views.

**Do you agree that these figures may be published as a global total rather than individually?**

Yes

No

No View

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

What are the reasons for your view?

## EITEM RHIF 10

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	15 Tachwedd 2023
<b>TEITL</b>	<b>PROFFIL RISG YR AWDURDOD</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod ac i baratoi Crynodeb Blynyddol

### CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.
- 1.2 Mae'n ofynnol bod y Proffil Risg yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu newidiadau i'r Proffil dros y 12 mis diwethaf ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw risgiau sydd angen eu tynnu oddi ar y Gofrestr yn barhaol.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb blynyddol yn ogystal â diweddariad mewn perthynas â'r Proffil Risg dywededig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023.
- 1.4 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodedb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2023 (manylder yn Atodiad 1).
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae 17 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 2 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 14 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 1 wedi cael ei nodi yn risg Isel.
- 1.6 Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni nodwyd unrhyw risgiau newydd i'w cynnwys ar Gofrestr Risg yr Awdurdod.

- 1.7 Ym mis Mawrth 2023, cynyddwyd y lefel risg ar gyfer cyflawni'r 'Targed Cynhyrchu Incwm ar gyfer Plas Tan y Bwlch' o risg Canolig i Uchel oherwydd bod pwysau chwyddiant yn cyfrannu ymhellach at y diffyg cynyddol.
- 1.8 Hefyd ym mis Mawrth 2023, gostyngwyd y 'Risg Ariannol sy'n gysylltiedig â Phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd' o Risg Uchel i Ganolig yn dilyn adroddiad monitro canol tymor ffafriol gan y Comisiwn Ewropeaidd a derbyniad llwyddiannus o arian ar y cyd ar gyfer y prosiect.
- 1.9 Ym mis Gorffennaf 2023, israddiwyd y risg bod 'Yr Ysgwrn yn methu â chynhyrchu incwm digonol' o risg Uchel i Ganolig yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gymorth ariannol allanol.
- 1.10 Tynnwyd un risg oddi ar Gofrestr Risg yr Awdurdod dros y deuddeg mis diwethaf sef, 'Effaith Covid-19 ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod', gan fod y DU wedi ei dosbarthu fel 'Covid Sefydlog', ac nid oes unrhyw gyfyngiadau mewn lle bellach sy'n effeithio ar yr Awdurdod neu Barc Cenedlaethol Eryri.
- 1.11 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod gan yr Awdurdod bellach systemau a gweithdrefnau datblygedig ar waith y gellir eu hail-ysgogi a'u gweithredu'n gyflym pe bai Covid-19 yn cael ei ail ddosbarthu fel 'Covid Brys' mewn unrhyw sefyllfa benodol yn y dyfodol.
- 1.12 Dyma grynodeb o'r risgiau:

Rhif y Risg	Risg Uchel	Newid
1	Diffyg arian cyllido digonol.	Dim
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Dim

Rhif y Risg	Risg Canolig	Newid
4	Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn	Dim
5	Risg (cyhoedduswydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Dim
6	Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
7	Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
8	Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018.	Dim
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt.	Dim

10	Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol.	Dim
11	Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol.	Dim
12	Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
13	Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Dim
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso).	Dim
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
16	Sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer Plas Tan y Bwlch.	Dim
17	Risg o ymosodiad Seibr	Dim

<b>Rhif y Risg</b>	<b>Risg Isel</b>	<b>Newid</b>
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

### **GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**




Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.







### **ARGYMHELLIAD**










Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a chymeradwyo'n ffurfiol i ddileu 'Effaith Covid-19 ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod' o Gofrestr Risg yr Awdurdod.

### **PAPURAU CEFNDIR**




Cofrestr Risg: Diweddariad Tachwedd 2023.







COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI										Tachwedd 2023		
Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	5	5	25 <b>Coch</b> 	<p>Ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2023/24, er gwaethaf codiadau chwyddiant tua 10%, lefel na welwyd ers yr 1980au.</p> <p>Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2024/25, ac o ystyried cyflwr ariannu cyhoeddus mae annhebygol gall pwysau gwleidyddol newid hyn. Serch hynny, bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y grant craidd.</p> <p>Hefyd, mae APCE wedi cadw hyblygrwydd wrth gefn a lefel ddarbodus o gronfeydd i fedru mantoli cyllideb 2023/24 heb weithredu toriadau brys. Felly, er bod yr her ariannol a rhagwelwyd yn amlwg erbyn hyn, rydym yn gallu cyfyngu'r effaith ar wasanaethau'r Awdurdod eleni, ond bydd angen ystyried arbedion erbyn 2024/25, gydag effaith niweidiol, heblaw bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.</p>	4	4	16 <b>Coch</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Prif Swyddog Cyllid










Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Risg Cynhenid	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg.	Canlyniad			
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20 <b>Coch</b> 	Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brechwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch.  At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.	4	5	20 <b>Coch</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Cyf. Gwas. Corfforaethol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20 <b>Coch</b> 	Mae'r targed incwm wedi ei wireddu o fewn y flwyddyn ariannol yn dilyn prif dymor prysur arall, er gwaethaf tywydd ansefydlog ar benwythnosau yn enwedig yn Awst. Mae angen cynhyrchu gwarged unwaith eto eleni er mwyn ariannu costau system rhag-archebu a diogelwch Pen y Pass. Bydd angen yn ogystal defnyddio canran o warged i uwchraddio peiriannau talu ac arddangos gan fod oes y caledwedd (hardware) wedi dod i ben. Bwriedir manteisio ar y cyfle i newid darparwr i arbed costau trafodion cerdyn.	4	1	4 <b>Gwyrdd</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Pennaeth Eiddo







Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	<b>15</b> <b>Coch</b> 	<p>Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle.</p> <p>Mae gan Yr Ysgwrn dystiolaeth o batrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar y ceisiadau hyn ac yn chwilio am gyfleoedd nawdd pellach yn rheolaidd.</p> <p>Mae cywaith Geiriau Diflanedig wedi arwain at gyfnodau llewyrchus yn ystod tymor 2023. Mae'r gwaith yn bartneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae sefyllfa ymweliadau grŵp yn gymysg, gyda niferoedd ysgolion yn gyson dda ond ymweliadau grŵp gan oedolion yn is na'r cyfnod cyn y pandemig. Mae adnodd addysg Geiriau Diflanedig ar fin cael ei lansio ac rydym yn hyderus bydd hyn yn denu rhagor o ysgolion dros y gaeaf.</p>	3	3	<b>9</b> <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliannol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	<b>12</b> <b>Ambr</b> 	<p>Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.</p> <p>Cytunwyd ar Grŵp Trafndiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafndiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.</p>	3	3	<b>9</b> <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Prif Weithredwr / Rheolwr Partneriaethau
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	<b>9</b> <b>Ambr</b> 	<p>Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.</p> <p>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu. Bydd archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 yn ystyried "Cydraddoldeb ac Amrywiaeth"</p>	3	3	<b>9</b> <b>Ambr</b> 		C  (Adolygwyd 12.07.23)	Prif Weithredwr












Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalo, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12 <b>Ambr</b> 	<p><b>Amserlen:</b> Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Ymarfer ail-broffilio'r cynllun ar y gweill, i fonitro cynnydd cywir yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.</p> <p><b>Pwrpasau Cymeradwy:</b> Cyfradd gwario a chyrraedd targedau'r cynllun wedi cynyddu ydag adferiad o'r pandemig Covid-19. Mae'r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi'i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio yn allanol. Mae gwerthusiad y cynllun yn digwydd drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.</p> <p><b>Cyllid:</b> Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae rhai cyfraniadau cyllid cyfatebol yn parhau heb eu cadarnhau ac mae trafodaethau parhaus yn digwydd ydag arianwyr er mwyn lleihau'r risg ariannol. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn parhau a derbynir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy drafodaeth gyda'r Monitor Cronfa Dreftadaeth.</p> <p><b>Staff:</b> Ers Mai 2022, rydym wedi gweld newidiadau staff mewn 6 rôl o fewn y bartneriaeth, gyda 3 o'r rolau yma o fewn tîm craidd Y Carneddau. Cododd dau o'r newidiadau oherwydd amgylchiadau eithriadol nad ellir eu rhagweld a digwyddodd y llall oherwydd cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol i'r swyddog mewn corff partner. Mae cefnogaeth gan bartneriaid y Cynllun wedi bod yn hanfodol er mwyn goroesi'r cyfnod heriol hwn a sicrhau dilyniant. Penodwyd dau swyddog newydd i'r olaf o'r swyddi gwag yng ngwanwyn 2023.</p>	3	2	6 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Rheolwr Prosiect




Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12 <b>Ambr</b> 	<p>Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.</p> <p>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.</p> <p>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.</p> <p>Mae cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y system ELMS a byddant yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023. Bydd disgwyl i bawb sefyll y rhain cyn gynted â phosibl a bydd mynediad i rwydwaith neu e-bost yn cael ei ddileu os na fydd staff / aelodau yn cwblhau'r cyrsiau gorfodol newydd.</p> <p>Cyrsiau newydd ELMS wedi ei gosod a mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau. Angen i'r aelodau gwblhau'r cyrsiau.</p>	3	2	6 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	4	20 <b>Coch</b> 	<p>Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31 Gorffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.</p> <p>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Adroddiad Cynnydd Diweddaraf wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2023. Dim adroddiadau pellach i'w cyflwyno tan fis Mawrth 2025.</p> <p>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid (tua £200k - £300k os bydd cyfanswm y cyllid yn cael ei dynnu i lawr o'r UE).</p> <p>Dim diweddariad pellach o fis Gorffennaf 2023.</p>	4	3	12 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfodddhaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12 <b>Ambr</b> 	Mae materion staffio yn parhau i fod yn broblem enfawr i'r prosiect, gyda Swyddog arall (Sabine Nouvet) yn gadael ym mis Mawrth 2023, ac oedi wrth recriwtio yn golygu bod y rôl yn wag tan ganol mis Gorffennaf. Hefyd arweiniodd absenoldebau tymor canolog i hir a brofwyd yn ystod haf 2023 ymhlith 2 aelod o staff (Swyddog Prosiect a Swyddog Ymgysylltu) at fwy o lwyth gwaith a straen ar staff presennol a gostyngiad mewn allbwn. Arweiniodd cynnydd mewn costau staff (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i dalu'r costau.  Serch hynny, yr aflonyddwch a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu i'w gapasiti llawn am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.	4	3	12 <b>Ambr</b> 		C  (Adolygwyd 12.07.23)	Rheolwr Prosiect
11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9 <b>Ambr</b> 	Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.  Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant.	2	4	8 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Tîm Rheoli
12	Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant.	Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9 <b>Ambr</b> 	Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys: 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff, 4. Cyfraddau cadw staff a salwch.  Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant a chostau byw ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Cymeradwywyd adolygiad cyflog yn 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno modelau gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfa yn bennaf.	3	3	9 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Tîm Rheoli

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
13	Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy.	4	4	16 <b>Coch</b> 	<p>Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2023/24 yn addawol, gyda nifer o grwpiau ac ysgolion eisoes wedi archebu ymweliadau.</p> <p>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.</p> <p>Mae'r Ysgwrn wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol allanol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau ac mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer uchafu'r incwm yma, e.e. drwy sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar gyfer Yr Ysgwrn.</p>	3	3	9 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwyllia-nnol
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.  Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau.	4	4	16 <b>Coch</b> 	<p>Nid oes unrhyw gyfyngiadau Covid ar ôl yn unrhyw un o'r 3 chanolfan.</p> <p>Roedd y canolfannau yn rhedeg rota lawn drwy'r tymor, fodd bynnag effeithiwyd ar Ganolfan Aberdyfi gan ymddiswyddiad staff ym mis Hydref.</p> <p>Mae pob un o'r 3 chanolfan wedi rhagori ar yr incwm a gynhyrchwyd yn 2022. Mae treialu agoriad cyfyngedig Canolfan Beddgelert drwy'r gaeaf yn cynyddu'r posibilrwydd o gynnydd pellach. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon economaidd presennol yn golygu efallai na fydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal yn y tymor hwy a gallai effaith chwyddiant ar gostau rhedeg fod yn fwy na'r incwm cynyddol a gynhyrchir.</p>	4	2	8 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Rheolwr Canolfannau Gwybodaeth

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol.	3	3	9 <b>Ambr</b> 	<p>O fis Awst 2023 ymlaen, mae'n ymddangos bod y gyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd.</p> <p>Mae'r gallu i liniaru unrhyw risgiau yn weddol gyfyngedig ond bydd yr Awdurdod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Parhau i lobio Llywodraeth Cymru am gynydd mewn ffioedd cynllunio gydag Awdurdodau eraill (trwy Grŵp Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, POSW), fel y bo'n briodol;</li> <li>- Bod yn ddarbodus o rhan gwariant - er mwyn ceisio gweithredu o fewn y gyllideb;</li> <li>- Ceisio Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPAs) gyda datblygwyr mwy lle bo'n briodol - a fydd yn helpu i dalu am amser swyddogion.</li> </ul>	3	3	9 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir
16	Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch.	Risg i enw da'r Awdurdod wrth reoli Plas Tan y Bwlch. Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi lleol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef.	3	4	12 <b>Ambr</b> 	<p>Gweler Risg 2 uchod. Er mwyn sicrhau dyfodol y Plas rhaid yn gyntaf llwyddo gyda'r model busnes newydd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol er bod incwm yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.</p> <p>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun gan arwain at dreiddiad llaith gormodol a cholli ystafelloedd gosod. Rydym yn ymchwilio i'r sefyllfa ar hyn o bryd ac mae gennym nawr Arolwg Cyflwr o'r adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod o'r Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion o beth sydd angen gwaith ar frys, gan ymchwilio os oes modd gwneud cais am grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law.</p>	3	4	12 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygwyd 12.07.23)	Cyf. Gwas. Corfforae - thol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
17	Risg o gael ymosodiad Seibr	Colli data a mynediad i'r rhwydwaith	4	3	12 <b>Ambr</b> 	<p>Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau.</p> <p>Cyswllt cyfathrebu newydd yn ei le ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd y profion yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol newydd.</p> <p>Dim newid ar hyn o bryd – parhau i gadw safon diogelwch fel oedd gennym.</p> <p>Linc newydd yn cael ei osod ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Tachwedd ac adolygiad o'r 'Firewall' yr un pryd. Rydym wedi uwchraddio'r <i>firmware</i> ar y <i>firewalls</i> ym mhencadlys.</p>	3	2	6 <b>Ambr</b> 		A  (Adolygyd 12.07.23)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol

Sgorio'r Risg					
Tebygolrwydd	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Effaith	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Sgôr Cyfunol			Risg Cyffredinol		
1 – 4			Isel  Gwyrdd		
6 – 14			Canolig  Ambr		
15 – 25			Uchel  Coch		

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	Tachwedd 15fed, 2023
<b>TEITL</b>	<b>ENWAU LLYNNOEDD ERYRI</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno rhestr o enwau llynnoedd Eryri wedi'u safoni i'r Awdurdod

**1. CEFNDIR**

- 1.1. Yn dilyn cyfarfod Gweithgor Aelodau Medi 2021, bu swyddogion yr Awdurdod, Prifysgol Caerdydd a Chomisiynydd yr Iaith yn cydweithio ar brosiect safoni enwau nodweddion tirweddol yn Eryri.
- 1.2. Prif waith Pwyllgor Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd yr Iaith yw safoni enwau aneddiadau yng Nghymru ond yn sgil diddordeb cynyddol a thrafodaeth am enwau lleoedd tirweddol yn y wasg, penderfynwyd cynnal prosiect peilot i safoni enwau tirweddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri.
- 1.3. Mae miloedd o enwau lleoedd yn Eryri a bydd safoni'r cyfan yn cymryd blynyddoedd. Penderfynwyd safoni enwau mesul nodwedd tirweddol, gan ddechrau gyda llynnoedd Eryri.

**2. LLYNNOEDD ERYRI**

- 2.1. Mae dros ddau gant o enwau llynnoedd yn Eryri a cheir rhestr ohonynt a'r ffurf safonol arfaethedig yn Atodiad 1.
- 2.2. Bu'r gwaith hwn yn sylweddol, gan ddilyn proses drylwyr a'r gwaith yn hynod ddiddorol. Mae'r enwau yn gyfoethog a'r amrywiaethau yn yr enwau yn adlewyrchu amrywiaethau lleol a gellid dweud bod cyfoeth ein enwau lleoedd a'r dafodiaith leol yn rhan o fywiogrwydd yr iaith Gymraeg yn Eryri, sef un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- 2.3. Trafodwyd yr enwau gan y Panel Safoni a daethpwyd yn ôl at yr Awdurdod gyda chwestiynau am rai enwau, er mwyn sicrhau cywirdeb a bod yr enw safonol yn unol â'r defnydd lleol. Cyflwynwyd rhain i Wardeiniaid Ardal yr Awdurdod er mwyn sicrhau cywirdeb a mewnbwn cymunedol a daeth gwybodaeth leol, ychwanegol gan y Wardeiniaid, sydd wedi cyfoethogi'r gwaith ymhellach.

### **3. CAMAU NESAF Y PROSIECT**

- 3.1. Mae cam nesaf y prosiect eisoes wedi dechrau, sef cysoni enwau rhaedrau Eryri.
- 3.2. Y nod ydi symud drwy'r grwpiau o nodweddion tirweddol, un ar y tro a'u cyflwyno i Aelodau i'w cymeradwyo cyn i'r Panel Safoni Enwau Lleoedd eu mabwysiadu yn ffurfiol.
- 3.3. Mae proses y gwaith hwn, o'r ymchwil cychwynnol ar grŵp o enwau, i wirio defnydd lleol, i ddilyn y broses safoni ffurfiol y Panel Safoni Enwau Lleoedd ac ymateb i unrhyw gwestiynau pellach gan y Panel hwnnw cyn derbyn argymellion terfynol, yn cymryd misoedd i'w gyflawni. Bydd miloedd o enwau yn cael eu safoni dros gyfnod estynedig. O'r herwydd, gofynnir i'r Awdurdod ystyried dirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r enwau hyn i'r Grŵp Llywio Enwau Lleoedd.

### **4. ARGYMELLIAD:**

- 4.1 I Aelodau gymeradwyo'r rhestr enwau llynnoedd.
- 4.2 I'r Awdurdod ddirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo enwau tirweddol Eryri i'r Grwp Craffu enwau lleoedd a derbyn adroddiad blynyddol ar y gwaith hwn.



## Enwau llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri Argymhellion terfynol Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg (Medi 2023)

Wrth drafod yr enwau isod, bwriad y [Panel Safoni Enwau Lleoedd](#) oedd dechrau llunio egwyddorion ar gyfer safoni enwau tirweddol Cymru. Gan mai prosiect peilot yw hwn gan y Parc Cenedlaethol yn canolbwyntio ar enwau llynnoedd yn unig, mae'n bosibl y bydd egwyddorion yn cael eu hychwanegu neu eu haddasu pe bai'r Panel yn mynd ati i ystyried enwau nodweddion eraill, yn afonydd, nentydd, mynyddoedd ayb.

Wrth safoni enwau aneddiadau (dinasoedd, trefi a phentrefi), mae'r Panel yn dilyn [Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#), ac felly mae'r egwyddorion isod yn ychwanegol at y canllawiau hynny a'r nod yw eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli.

### Egwyddorion

1. Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn argymhell ysgrifennu enwau nodweddion tirweddol fel geiriau ar wahân, yn groes i'r arfer mewn perthynas ag enwau aneddiadau (dinasoedd, trefi a phentrefi ayb) sy'n cael eu hysgrifennu'n un gair fel rheol. Rhoddir priflythyren i'r elfennau unigol, ac eithrio'r fannod (*y/yr*), fel yn *Llyn Cors y Barcud*, er enghraifft. Mae'r mwyafrif helaeth o'r enwau yn y rhestr isod felly'n cael eu hysgrifennu â'r elfennau i gyd ar wahân.
2. Ceir, fodd bynnag, enwau fel *Gloywlyn*, *Llyn Dubach*, *Llyn Garneddwen* a *Llyn Gelligain* lle cywesgir elfennau yn un gair er mwyn cyfleu'r ynganiad. Yn Gymraeg mae'r acen yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un), a chaiff hynny ei adlewyrchu yn sillafiad rhai o'r enwau er mwyn cynrychioli'r ynganiad cywir.
3. Pan fo enw'r llyn yn cyfeirio at anheddiad, fel yn achos *Llyn Tynymynydd* (Tyn = tyddyn) a *Llyn Hafod-y-llyn*, caiff yr enw anheddiad ei ysgrifennu'n un gair gan ddilyn yr egwyddor sy'n berthnasol ar gyfer enwau aneddiadau.
4. Mae rhai o'r enwau isod yn enwau tawtolegol, lle mae'r elfen *llyn* i'w gweld ddwywaith, fel yn achos *Llyn Dulyn* a *Llyn Cwellyn*. Nid yw'r enw disgrifiadol *llyn* yn ymddangos o flaen enwau eraill fel *Glaslyn* a *Gloywlyn*. Nid yw'r Panel yn gwrthwynebu cynnwys yr enw disgrifiadol *llyn* o flaen enwau lle mae *llyn* yn rhan o'r enw hefyd os dyna'r ffurf fwyaf cyffredin. Gall hefyd fod yn ffordd hwylus o wahaniaethu rhwng llyn a nodwedd arall sy'n rhannu'r un enw. Er enghraifft, *Bodlyn* a *Hiraethlyn* yw'r ffurfiau yn y cyfeirlyfr safonol, *Rhestr o Enwau Lleoedd* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), ond mae *Llyn Bodlyn* a *Llyn Hiraethlyn* yn fwy cyffredin, ac mae defnyddio *Llyn Hiraethlyn* yn fodd o wahaniaethu rhwng y llyn ac *Afon Hiraethlyn*.

5. Ar adegau, ymddengys nad oes enw penodol arferedig i lynnoedd unigol a'r arfer yw defnyddio ffurfiau lluosog i gyfeirio at fwy nag un llyn, e.e. *Llynau Cregennen*, *Llynau Mymbyr*. Noder mai *llynau* yw'r ffurf luosog arferol mewn enwau lleoedd yn yr ardal dan sylw, er mai *llynnoedd* yw'r ffurf sydd yn fwyaf arferol yn yr iaith safonol heddiw.

## **Enwau Saesneg**

Enwau Cymraeg yn unig yw'r mwyafrif helaeth o'r enwau isod, ond ceir ambell eithriad lle mae enw Saesneg yn cyd-fyw â'r enw Cymraeg, weithiau ar lafar, dro arall yn fwy swyddogol.

Mater i'r Parc yw penderfynu sut y maent yn bwriadu ymdrin ag enwau Saesneg yng ngwaith yr Awdurdod. Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd a'r Comisiynydd yn awyddus i ddeall bwriadau'r Parc yn hyn o beth er mwyn gallu cyfleu'r wybodaeth hynny i'r cyhoedd yn Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar-lein yn y pen draw.

Rhaid cydnabod y gall tyndra godi ar brydiau rhwng yr awydd i hyrwyddo enwau Cymraeg a gwaith y Panel Safoni Enwau Lleoedd yn argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae'r rhestr isod yn cydnabod bod yna gategorïau gwahanol o enwau Saesneg yn bodoli: rhai yn gyfieithiadau diweddar a llythrennol, er enghraifft. Mae eraill yn ffurfiau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae'r rhestr isod yn ceisio cynnig arweiniad ynghylch y categorïau hyn a sut y gellid dewis ymdrin â nhw.

**Mae'r rhesi wedi eu tywyllu yn dangos yr enwau y darparodd swyddogion y Parc ragor o wybodaeth amdanynt a lle mae'r Panel wedi trafod yr enwau eto yn sgil sylwadau'r swyddogion. Ceir nodiadau esboniadol newydd mewn ffont glas wrth rai o'r enwau hynny er mwyn egluro penderfyniadau ac argymhellion terfynol y Panel ynghylch yr enwau.**

## Lake names in Snowdonia National Park

### Final recommendations of the Welsh Language Commissioner's Place Names Standardisation Panel (September 2023)

In discussing the names below, the [Place-names Standardisation Panel's](#) intention was to start drawing up standardisation principles relevant to Welsh topographical names. As this is a pilot project by the National Park focusing solely on the names of lakes, principles may be added or modified should the Panel go ahead to consider the names of other features, such as rivers, streams, mountains etc.

In standardising the names of settlements (cities, towns and villages), the Panel follows the [Guidelines for Standardising Place-names in Wales](#), and so the principles below are additions to those guidelines and the aim is to align them with the existing national guidelines.

#### **Principles**

1. The Place-names Standardisation Panel recommends writing the names of topographical features as separate words, contrary to the practice in relation to settlement names (cities, towns and villages etc) that are usually written as one word. A capital letter is used for the separate elements, but not for the Welsh definite article (*y/yr*), as in *Llyn Cors y Barcud*, for example. The vast majority of the names in the list below are therefore written with all the elements as separate words.
2. There are, however, names such as *Gloywlyn*, *Llyn Dubach*, *Llyn Garneddwen* and *Llyn Gelligain* where elements are compressed into one word in order to convey the pronunciation. In Welsh the accent falls on the penultimate syllable, and that is reflected in the spelling of some of the names to represent the correct pronunciation.
3. Where the name of a lake refers to a settlement, as in the case of *Llyn Tynymynydd* (*Tyn* = *tyddyn*, smallholding) and *Llyn Hafod-y-llyn*, the settlement name is written as one word following the principle applied to settlement names.
4. Some of the names below are tautological names, where the element *llyn* (lake) appears twice, as in the case of *Llyn Dulyn* and *Llyn Cwellyn*. The descriptive noun *llyn* does not precede other names such as *Glaslyn* and *Gloywlyn*. The Panel does not object including the descriptive noun *llyn* before names where the *llyn* element also forms part of the name itself if that is the most common form. It can also be a convenient way to distinguish between a lake and another feature that shares the same name. For example, *Bodlyn* and *Hiraethlyn* are the forms in the standard reference book, *A Gazetteer of Welsh Place-*

*Names* (University of Wales Press, 1967), but *Llyn Bodlyn* and *Llyn Hiraethlyn* are more common, and using *Llyn Hiraethlyn* is a means of distinguishing between the lake and the river, *Afon Hiraethlyn*.

5. At times, individual lakes do not appear to have a specific name and the practice is to use a plural form to refer to more than one lake, e.g. *Llynnau Cregennen*, *Llynnau Mymbyr*. Note that *llynnau* is the usual plural form used in place-names in the Eryri area, although *llynnoedd* is the most common form in today's standard Welsh.

## **English names**

The vast majority of the names below are Welsh only names, but there are a few exceptions where an English name co-exists with the Welsh name, sometimes colloquially, other times more officially.

It is for the National Park to decide how they intend to deal with English names within the Authority's work. The Place-names Standardisation Panel and the Commissioner are keen to understand the Park's intentions in this regard so that the information can ultimately be communicated to the public through the List of Standardised Welsh Place-names online.

It must be noted that tension can arise at times between the desire to promote Welsh names and the work of the Place-names Standardisation Panel in recommending the standard forms of place-names. The list below acknowledges that different categories of English names exist: some are recent and literal translations, for example. Others are well-established forms. The list below seeks to provide guidance on these categories and how they may be dealt with.

**The greyed rows show the names that Park officials provided more information about them and where the Panel discussed the names again in light of the officials' comments. New explanatory notes in blue font can be seen next to some of these names to explain the decisions and final recommendations of the Panel.**

<b>Ffurf safonol (argymhelliad terfynol y Panel)</b> <b>Standard form (the Panel's final recommendation)</b>	<b>Lleoliad Location</b>	<b>Nodiadau</b>	<b>Notes</b>
Creiglyn Dyfi	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793641">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793641</a>		
Glaslyn	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074818937">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074818937</a>		
Gloywlyn	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074797797">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074797797</a>		

Llyn Anafon	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793748">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793748</a>	<p>Er mai <i>Llyn Anhafon</i> sydd yn y <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), nid oes defnydd helaeth i'r ffurf honno. Mae'r ffurf <i>Llyn Anafon</i> yn llawer mwy cyffredin. Mae ambell awgrym ynghylch tarddiad yr enw, ar un llaw gall fod mai <i>Anaddon</i> oedd y ffurf hanesyddol ag 'addon' yn enw personol (cymharer â <i>Mynydd Bodaddon</i> &gt; <i>Mynydd Bodafon</i>). Ar y llaw arall awgryma Geraint Thomas yn ei gyfrol <i>Cyfrinachau Llynnoedd Eryri</i> mai <i>Nant Mawan</i> oedd yr enw gwreiddiol, newidiodd <i>Llyn Mawan</i> yn <i>Llyn Nanmafon</i> cyn troi'n <i>Llyn Anafon</i>.</p> <p>Noder mai <i>Llyn Anafon</i> yw ffurf yr Arolwg Ordnans.</p>	<p>Although <i>Llyn Anhafon</i> is the recommended form in <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967), that form is not widely used. The form <i>Llyn Anafon</i> is much more common. There are a few suggestions as to the origin of the name, on the one hand it may be that <i>Anaddon</i> was the historical form with 'addon' as a personal name (compare with <i>Mynydd Bodaddon</i> &gt; <i>Mynydd Bodafon</i>). On the other hand, Geraint Thomas suggests in his book <i>Cyfrinachau Llynnoedd Eryri</i> that the original name was <i>Nant Mawan</i>, therefore <i>Llyn Mawan</i> became <i>Llyn Nanmafon</i> before becoming <i>Llyn Anafon</i>.</p> <p>Note that <i>Llyn Anafon</i> is the form used by the Ordnance Survey.</p>
Llyn Aran	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793735">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793735</a>		

<p>Llyn Arenig Fach</p>	<p><a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793486">http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793486</a></p>	<p>Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn cytuno â swyddogion y Parc y dylid sillafu <i>Arenig</i> ag un <i>-n-</i>. Dyma'r ffurf fwyaf cyffredin ac mae'n cyd-fynd â ffurfiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans.</p> <p>O safbwynt orgraffyddol, terfyniad bachigol yw'r <i>-an-</i> yn 'Aran', ac mae unrhyw ffurfiau lluosog ar eiriau â'r terfyniad hwnnw'n cael eu hysgrifennu ag un <i>-n-</i> (cwpan &gt; cwpanau, baban &gt; babanod, bychan &gt; bychanu).</p> <p>Bydd angen i'r sillafiad yn enw'r llyn fod yn gyson â sillafiad enw'r mynydd, wrth gwrs.</p>	<p>The Place-names Standardisation Panel agrees with the Park officials that <i>Arenig</i> should be spelt with a single <i>-n-</i>. This is the most common form and it also conforms with the Ordnance Survey's historical forms.</p> <p>In terms of orthography, the <i>-an-</i> suffix in 'Aran' is a diminutive suffix, and any pluralised forms for words with that suffix are written with a single <i>-n-</i> (cwpan &gt; cwpanau, baban &gt; babanod, bychan &gt; bychanu).</p> <p>The spelling of the lake's name will, of course, need to be consistent with the spelling of the mountain's name.</p>
-------------------------	--	---	--

Llyn Arenig Fawr	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793436">http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793436</a>	<p>Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn cytuno â swyddogion y Parc y dylid sillafu <i>Arenig</i> ag un <i>-n-</i>. Dyma'r ffurf fwyaf cyffredin ac mae'n cyd-fynd â ffurfiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans.</p> <p>O safbwynt orgraffyddol, terfyniad bachigol yw'r <i>-an-</i> yn 'Aran', ac mae unrhyw ffurfiau lluosog ar eiriau â'r terfyniad hwnnw'n cael eu hysgrifennu ag un <i>-n-</i> (cwpan &gt; cwpanau, baban &gt; babanod, bychan &gt; bychanu).</p> <p>Bydd angen i'r sillafiad yn enw'r llyn fod yn gyson â sillafiad enw'r mynydd, wrth gwrs.</p>	<p>The Place-names Standardisation Panel agrees with the Park officials that <i>Arenig</i> should be spelt with a single <i>-n-</i>. This is the most common form and it also conforms with the Ordnance Survey's historical forms.</p> <p>In terms of orthography, the <i>-an-</i> suffix in 'Aran' is a diminutive suffix, and any pluralised forms for words with that suffix are written with a single <i>-n-</i> (cwpan &gt; cwpanau, baban &gt; babanod, bychan &gt; bychanu).</p> <p>The spelling of the lake's name will, of course, need to be consistent with the spelling of the mountain's name.</p>
Llyn Bach [Rhyd-y-main]	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793597">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793597</a>		
Llyn Bach [Nant Peris]	<a href="http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793290">http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793290</a>		



<p>Llyn Bach / Llyn y Tri Greyenyn [Tal-y-llyn]</p>	<p><a href="#">SH75339 13568</a></p>	<p>Er nad oes fawr ddim o'r llyn ei hun ar ôl bellach, mae dau enw i'w gael ar y llyn, <i>Llyn Bach</i> sy'n weddol anghyfarwydd heddiw a <i>Llyn y Tri Greyenyn</i> sydd â chysylltiadau llenyddol a chwedlonol.</p> <p>Gan fod y maes parcio wrth y llyn yn cael ei alw weithiau yn 'Mach Loop Carpark', gallai'r Parc ystyried defnyddio un o'r enwau hyn yn enw ar y maes parcio er mwyn osgoi unrhyw fathiad Cymraeg arall ar enw'r llyn a rhoi amlygrwydd i'r enwau hanesyddol.</p>	<p>Although little of the lake itself is now left, there are two names used for this lake, <i>Llyn Bach</i> which is fairly unfamiliar today and <i>Llyn y Tri Greyenyn</i> which has literary and mythical connections.</p> <p>As the car park by the lake is sometimes called 'Mach Loop Carpark', the Park could consider using one of these names as the name for the car park to avoid any other Welsh coinages for the name of the lake and to give prominence to the historic names.</p>
---	--------------------------------------	---	---

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elfed Powell Roberts fel Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

**2. Is-Gadeirydd**

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn nifer o enwebiadau yn cynnig y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd.

**Etholwyd y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

**3. Ymddiheuriadau**

Cynghorydd Kim Jones, Dilwyn Owain Roberts.  
Dewi Morgan, Prif Swyddog Cyllid.

**4. Datgan Budd**

Datganodd Emyr Williams ac Iwan Jones fudd yn eitem 13 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.

## 5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

## 6. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

### **PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.**

## 7. **Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru.

Croesawodd y Cadeirydd Nic Selwyn ac Euros Lake o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad. Cafodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint ar y cefndir a'r prif ganfyddiadau a dywedwyd wrthynt mai adolygiad thematig ar draws y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru oedd yr adroddiad, a fyddai'n llunio crynodeb Cenedlaethol ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Nododd yr Aelodau ymateb sefydliadol y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr heriau ariannol ym Mhlas Tan y Bwlch ac argymhelliad gan Archwilio Cymru y dylai'r Awdurdod adolygu'r model gweithredu yn y Plas a phennu strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- Nododd yr aelodau:-
  - o y dylai'r Awdurdod fabwysiadu agwedd strwythuredig tuag at arallgyfeirio yn hytrach na ymateb wrth i amgylchiadau newid.
  - o roedd yr angen i ddenu incwm allanol i gwrdd â heriau'r dyfodol yn sylweddol a byddai'r rhestr wirio hunanasesu a ddarparwyd yn cynorthwyo'r Awdurdod dros y 12-18 mis nesaf i ddarparu cyfeiriad teithio clir.
- Yn codi wedi hynny, manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i Nic Selwyn, a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf gyda'r Awdurdod gan ei fod yn ymddeol o'i rôl gydag Archwilio Cymru. Diolchodd y Prif Weithredwr iddo am ei waith, ei ddealltwriaeth, ac am ei gefnogaeth i'r tri Pharc Cenedlaethol Cymreig dros y blynyddoedd, a oedd wedi'i werthfawrogi'n fawr.
- dywedodd y Prif Weithredwr mai'r nod oedd cynyddu incwm i gyflawni pwrpasau statudol yr Awdurdod ac y byddai angen cytuno ar faterion o egwyddor. Teimlai swyddogion y dylai'r Awdurdod fod yn effro i'r risgiau o weithredu ar sail fwy masnachol a nodwyd bod rhai Awdurdodau wedi methu'n llwyr, gyda'r trethdalwr yn gorfod camu i mewn. Roedd angen cydbwysu'r risg a chyflawni ffrwd incwm o'r buddsoddiad, tra'n ymwybodol o'r arbenigedd a'r gallu sydd ar gael.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd y Gweinidog yn disgwyl i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddisgwyliadau a amlinellwyd yn y llythyr cylch gwaith yng ngoleuni'r setliad grant. Nododd hefyd y byddai dyfarniadau arian parod ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn haws i'w gweinyddu pe baent yn cael eu hymgorffori i setliad grant yr Awdurdod yn y dyfodol, a fyddai'n dileu rhywfaint o'r pwysau oddi ar staff prosiect a'r defnydd o contractau tymor byr.

- teimlai aelod y dylai'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'r costau ac nid canolbwyntio ar gynyddu incwm yn unig. Nododd y dylai'r Awdurdod ystyried a oedd yn briodol cystadlu ar sail fasnachol gyda busnesau bach yn yr ardal, a chan nad oedd yr Awdurdod yn gorff masnachol, byddai angen iddo sicrhau bod y defnydd o arian cyhoeddus yn ddiogel. Tra bod incwm preifat ar gael roedd angen cadw at bwrpasau'r Parc Cenedlaethol wrth roi strategaeth yn ei lle.
- Nododd yr Aelodau a'r Swyddogion fod Hafod Eryri ar brydles tymor hir ac yn rhoi incwm masnachol i'r Awdurdod a bod Archwilio Cymru wedi canfod bod cynllun busnes Yr Ysgwrn yn foddhaol.
- cytunwyd y dylai'r Tîm Rheoli ddechrau'r broses a chyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol lle gellid penodi panel o Aelodau wedyn i weithio'n fanwl ar y strategaeth.
- mewn ymateb i gwestiwn ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y model busnes wedi esblygu ers y model gwely a brechwast a bod adroddiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'r Aelodau ystyried yr holl opsiynau, gan ystyried yr holl opsiynau. Gan gadw mewn cof bod Plas Tan y Bwlch yn adeilad Rhestredig Gradd II\*.
- mewn perthynas â'r cynnig i AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ddod yn bedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn cynnal asesiad technegol ac yn casglu tystiolaeth i gefnogi dynodi Parc Cenedlaethol newydd ac y byddai'r cyllid yn fater i'w drafod yn nhymor nesaf y llywodraeth.
- Trafododd yr aelodau y potensial ar gyfer creu diwylliant o fewn y Parciau Cenedlaethol sy'n cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu incwm.
- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn argymhell bod yr Awdurdod yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch ac yn cytuno ar ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol o fewn y 12 mis nesaf. Yn ogystal, defnyddio'r offeryn hunanwerthuso (Atodiad 1) i ddatblygu ymagwedd strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm yn y dyfodol.

## **PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad a derbyn y ddau argymhelliad fel y'u nodwyd.**
2. **aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.**

## **8. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2022/23**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf a gyllidebwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2022/2023 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y symudiadau ariannol a'r trosglwyddiadau o gyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Yn codi wedi hynny, atebodd y Swyddog Cyllid nifer o gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau.

## **PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo'r trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a'r gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2).**

4. cymeradwyo dyraniad llithriad ac ymrwymadau (£ 461,519) yn Atodiad 4.
5. nodi y bydd y tanwariant sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2022/23 yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod, y Gronfa Cadernid Staff a'r Gronfa Risgiau Penodol.
6. cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).

9. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr fod paragraff 3.2 o'r adroddiad Cymraeg yn uniaith Saesneg.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn ar yr Awyr Dywyll a sut y gallai'r Awdurdod hyrwyddo manteision y prosiect ymhellach yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, dywedodd y Prif Weithredwr fod cyllid tymor byr ar gael ar hyn o bryd a dywedodd fod swyddog Gogledd-ddwyrain Cymru wedi'i benodi'n ddiweddar. Cytunodd y dylai cyllid ar gyfer Awyr Dywyll gael ei gynnwys fel rhan o waelodlin yr Awdurdod, a byddai'n codi hyn gyda'r Gweinidog yn Sioe Frenhinol Cymru.
- yn codi wedi hynny, cytunodd aelod lleol Llanegryn i ofyn i Gyngor Gwynedd fynd i'r afael â'r mater o ormod o oleuadau stryd yn ei ardal.
- rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Aelodau fod tîm monitro LIFE yn ymwybodol bod rhai tîffeddiawyr yn amharod i wneud ymrwymiad 20 mlynedd ac er bod risg fach, roeddent yn teimlo ei fod yn dderbyniol.
- gofynnodd Aelod i swyddogion nodi mai "chough" oedd y cyfieithiad i'r Saesneg o "bran goesgoch".

**PENDERFYNWYD**

1. nodi'r prosiectau a ariannwyd gan gyfalaf 2022 – 2025.
2. nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).
3. cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).
4. nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).

10. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y prif newidiadau i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,

Cyf Risg. 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch), a  
Cyf Risg. 16 Sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- roedd yn fodlon y dylai'r Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch) aros fel y mae, a chyfeiriodd at y ffigurau incwm a adroddwyd yn gynharach yn Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2022/23, a oedd yn well na'r disgwyl.
- Byddai Cyf Risg 16 yn cael ei ddiwygio a byddai'n cynnwys cyfeiriad at y risg i enw da'r Awdurdod o reoli Plas Tan y Bwlch. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Corfforaethol y bydd dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch yn llawer cliriach unwaith y bydd yr Aelodau wedi ystyried yr adroddiad llawn yn yr Hydref.

### **PENDERFYNWYD**

- 1. nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg.**
- 2. cynnwys cyfeiriad at y risg i enw da'r Awdurdod mewn Cyf Risg. 16.**

#### **11. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23**

##### **Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd pedwerydd a chwarter olaf ar gyfer 2022/23 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ddiweddariadau'r pedwerydd a'r chwarter olaf a dywedodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn cael ei defnyddio i baratoi'r adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau ym mis Medi. Rhoddodd fanylion pellach i'r Aelodau ar sut y gosodwyd yr adroddiad a sut i ddehongli'r wybodaeth.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Gwella Rheolaeth Hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol Hamdden Trafododd yr Aelodau a swyddogion y mesurau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion gwrsylla anghyfreithlon a chartrefi modur. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Aelod wedi gofyn am ddatblygu polisi nofio gwyllt ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Weithgor yr Aelodau yn y dyfodol.
- Mynd i'r afael â'r Dirywiad mewn Natur – mewn ymateb i gwestiwn ar Ganllawiau disgwylidiedig Llywodraeth Cymru ar wella bioamrywiaeth, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn ystod sesiwn Adfer Natur yn Sioe Frenhinol Cymru.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y ffocws ar frandio wedi'i gynnwys fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod.
- Cefnogi Pobl Ifanc - mewn ymateb i gwestiwn ar sut yr oedd y Maniffesto Ieuenctid drafft yn dod yn ei flaen, byddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu i'r swyddog perthnasol roi diweddariad i'r Aelod ar y cynnydd.
- Trafododd yr aelodau a swyddogion y mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â Rheoli Traffig yn Yr Wyddfa a'r risgiau cysylltiedig i enw da'r partneriaethau.

### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

#### **12. Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbynnir nifer o gwynion, ond oherwydd diwydrwydd staff yr Awdurdod sy'n ymdrin â'r cwynion yn broffesiynol ac yn brydlon, nid ydynt yn mynd ymlaen i fod yn gwynion ffurfiol.

### **PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad cadarnhaol a nodi ei gynnwys.**

13. **Datganiad Polisi Tâl 2023/24 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2022/23**  
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir.

#### **PENDERFYNWYD**

1. **cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.**
2. **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.**

14. **Holiadur Staff – Archwilio Amrywiol Batrymau Gweithio Hyblyg ar gyfer yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i osod y cefndir, rhannu canlyniadau'r holiadur, a chyflwyno adroddiad llafar ar y camau nesaf, cyn cychwyn ar y broses ymgynghori swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Gweithwyr yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd wrth yr Aelodau fod ymateb holiadur o 48% yn gyson â'r nifer arferol a fanteisiodd i'w gwblhau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- gofynnodd Aelod i'r siartiau canlyniadau holiadur gael eu cyfieithu i'r Saesneg a'u dosbarthu i'r Aelodau.
- nododd Aelod fod angen i reolwyr fod yn bresennol i ddarparu strwythur pan fydd staff newydd yn dechrau eu cyflogaeth, gyda chyfnod ymsefydlu wedi'i gynllunio'n ofalus. Byddai hyn yn sicrhau nad yw staff newydd yn teimlo'n ynysig ac yn teimlo'n rhan o dîm. Dylai fod cyfnodau gorfodol hefyd pan fydd yr holl staff yn mynychu cyfarfodydd tîm ac ati.
- Croesawodd yr aelodau'r ymateb i'r holiadur gan fod y staff yn cytuno'n gryf / cytuno bod yr Awdurdod yn lle da i weithio.
- Nododd Aelod y gall yr arferiad o rannu desgiau weithio a darparu gwell cyfathrebu ac integreiddio.
- Nododd Aelod fod dal angen sicrhau bod swyddogion ar gael yn ystod oriau swyddfa i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd.
- rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol amlinelliad byr i'r Aelodau o'r camau nesaf a dywedodd fod rheolwyr wedi edrych ar bob disgrifiad swydd o fewn eu gwasanaeth ac wedi cytuno â'u staff pa rolau yr ystyriwyd eu bod yn weithwyr hybrid / parhaol yn y swyddfa / o bell ac ati. Bydd y gwaith hwn nawr yn cael ei adolygu gan grŵp o staff, yn debyg i banel gwerthuso swyddi, i sicrhau bod y meini prawf wedi'u cymhwyso'n gyson. Yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda staff a'r Undebau Llafur, bydd peilot i waredu ag oriau craidd a chaniatáu mwy o hyblygrwydd yn cael ei dreialu. Dangoswyd fod hyn wedi gweithio'n effeithiol mewn awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, er y bydd angen i reolwyr gadw at ganllawiau cadarn a chyson i sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyfartal ac yn effeithiol. Os bydd unrhyw faterion perfformiad yn codi o'r trefniadau gweithio newydd, yna gellir tynnu'r opsiwn yn ôl.
- Nododd Aelod fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithredu prosiect agwedd "doeth tuag at waith" tebyg dros y 4 i 5 mlynedd diwethaf ac anogwyd swyddogion i gysylltu â swyddogion o'r adran berthnasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. nodi'r adroddiad.**
- 2. awdurdodi'r Pennaeth Adnoddau Dynol i ddechrau'r broses ymgynghoriad Swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Chyflogeion yr Awdurdod.**

### **15. (Drafft) Strategaeth Hamdden**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles i gyflwyno'r drafft ddogfen i'w chymeradwyo cyn cyfnod o ymgynghori arni.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a'r cefndir ac amlygodd y pwyntiau allweddol. Yna arweiniwyd yr aelodau drwy'r Strategaeth Hamdden (Drafft) yn fanwl.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r strategaeth ddrafft a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Croesawodd yr Aelodau'r Strategaeth Hamdden a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.
- Bu aelodau a swyddogion yn trafod mynd â chŵn am dro yng nghefn gwlad ac er nad oedd unrhyw gyfraith yn mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn, byddai'r Awdurdod bob amser yn annog perchnogion cŵn i roi eu ci ar dennyn yng nghyffiniau da byw, boed ar dir mynediad neu ar Hawl Tramwy Cyhoeddus.
- Cytunodd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach a mân newidiadau at y Rheolwr Mynediad a Llesiant, e.e. gofynion caniatâd dronau ac ati.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Mynediad a Llesiant mai mapiau ac apiau a ddatblygwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri oedd y mapiau ar y we y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad ac nad oeddent yn rhan o Google na systemau mapio torfol yr AO.
- cytunodd y Rheolwr Mynediad a Llesiant i ddarparu dolen i'r cod ymddygiad gwersylla gwyllt yn y ddogfen i hysbysu defnyddwyr unwaith y bydd caniatâd wedi'i roi.
- Nododd Aelod na fydd y Cynghorau Cymuned yn cyfarfod tan fis Medi. Gan fod hyn yn wir, sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau na fyddai'r ymgynghoriad yn dechrau tan yr amser hwn.
- Croesawodd Aelod y ddogfen a oedd, yn ei farn ef, o fudd i dirfeddianwyr. Trafododd yr aelodau yr angen i leihau effaith parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd gan nodi bod llwybrau cylchol Dinas Mawddwy yn esiampl dda gan eu bod yn caniatáu i bobl fwynhau'r awyr agored heb orfod defnyddio eu ceir, gan fod y llwybrau troedyn dechrau a gorffen yn y pentrefi. Cytunodd swyddogion y byddai lleoedd fel Beddgelert yn elwa o gynlluniau tebyg.
- teimlai Aelod fod y rhan ar newid hinsawdd yn fyr iawn wrth symud ymlaen ac y dylid ei chroesgyfeirio gyda'r strategaeth hinsawdd. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y strategaeth yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Eryri a'i amcanion, ac y bydd y Rheolwr Mynediad a Llesiant yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli i fireinio'r ddogfen.
- bydd y Strategaeth Hamdden hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddwyr faniau gwersylla.
- nododd Aelod fod ystadegau newydd ar hamdden yn seiliedig ar weithgareddau wedi'u lansio'n ddiweddar ac y dylai swyddogion gysylltu ag Eryri Bywiol am ragor o fanylion. Hefyd, dylid cywiro'r cyfeiriad at 'Mount Snowdon' ar dudalen 34 o'r strategaeth.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys y Strategaeth Hamdden ddrafft (Atodiad 1) yn ddarostyngedig i sylwadau'r Aelodau.**



2. **bod yr Aelodau'n cymeradwyo cyfnod ymgynghori allanol o 4 wythnos gyda chyfnod pellach o 4 wythnos wedi hynny i ystyried ymatebion ac ymgorffori unrhyw newidiadau perthnasol i'r ddogfen cyn dychwelyd i'r Awdurdod i'w chymeradwyo'n derfynol.**
3. **bod y cyfnod ymgynghori i ddechrau ym mis Medi 2023.**

16. **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ac i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd gyda'r Strategaeth Gwirfoddoli 2021-26.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yr Adroddiad Blynyddol a rhoddodd y cefndir ac adroddiad cynnydd i'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr Adroddiad Blynyddol a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y byddai targedu grwpiau penodol i ddod yn wirfoddolwyr yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r ardal a gwaith y Parciau Cenedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, CNC a'r RSPB wedi comisiynu darn o waith i edrych ar ymgysylltu gwell â grwpiau ethnig. Roedd hyn hefyd yn rhan o rôl y swyddog strategol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a dylai wella pethau dros y blynyddoedd i ddod.
- Croesawodd yr aelodau'r ddogfen a'r cynnydd a wnaed gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles wrth ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr er nad oedd rhan o'r gwirfoddolwyr yn gallu siarad Cymraeg, eu bod yn cael pob anogaeth i ddysgu'r iaith.
- Diolchodd yr aelodau oedd wedi bod yn plannu coed gyda phlant o Ysgol Hafod Lon i'r Swyddog Gwirfoddoli a Lles am ei gwaith ac am y profiad a ddarparwyd i'r plant. Gwahoddwyd yr holl Aelodau i ymuno yn y diwrnodau gwirfoddoli a lles a drefnir yn fisol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022.**

17. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y pwyntiau allweddol. Dywedodd ymhellach fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn awr yn aros am yr adroddiad opsiynau gyda'r costau cyn cyflwyno argymhellion ar ddyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch i'r Awdurdod yn yr Hydref.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.40**

**PWYLLGOR SAFONAU  
DYDD GWENER 1 MEDI 2023**

**PRESENNOL:**

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorydd Elfed P. Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau Annibynnol**

Mrs. Sharon Warnes (Cadeirydd), Mr. Martin J. Hughes,

**Swyddogion**

Mr. G. Iwan Jones, Ms Bethan Hughes, Mrs. Anwen Gaffey.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriad**

Mrs. Sarah Hattle. Ni fydd yr ymddiheuriad yn cael ei gofnodi fel absenoldeb yn yr Adroddiad Blynyddol Presenoldeb Aelodau gan ei fod yn deillio o gais i Mrs Hattle beidio â mynychu er mwyn sicrhau cworwm oherwydd absenoldeb disgwylidiedig un o'r Aelodau Annibynnol.

2. **Datgan Budd**

Datganodd y Cyng. Dilwyn Roberts a'r Cyng. Elfed Roberts fuddiant personol yn eitem 7 ar y Rhaglen, o dan baragraff 10(2)(a)(ix)(aa) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Yn codi wedi hynny,

7. Ymgynghori ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r

Fframwaith Safonau Moesegol (Adroddiad Richard Penn)

Mewn ymateb i sylw gan Aelod mewn perthynas â chwestiwn 13, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gwrandao ar y recordiad o'r cyfarfod ac y gallai gadarnhau mai casgliad y Pwyllgor oedd cynyddu hyblygrwydd drwy wneud defnydd o bapurau bro, heb gael gwared ar yr opsiwn ar gyfer hysbysebu yn y wasg leol, os teimlwyd bod angen hynny.

8. Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol

Dywedodd y Cadeirydd y byddai swyddogion yn dosbarthu llythyr gyda dolenni at set o fideos ar safonau moesegol a'r cod ymddygiad fel y'i datblygwyd gan Lywodraeth Cymru, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, er gwybodaeth.

4. **Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi tri Aelod a dau ddirprwy aelod ar y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a thrafododd yr Aelodau aelodaeth y Panel yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **penodi Mr. Mark Jones, Mrs. Sarah Hattle a Mr. Martin J. Hughes fel Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl gyda'r Cynghorydd Dilwyn Roberts a'r Cynghorydd Elfed Roberts wedi'u penodi fel dirprwy aelodau.**

5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir, a nododd yr Aelodau adroddiad ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y tro hwn. Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a rheolaeth effeithiol yr Awdurdod gan y staff a'r Aelodau a gofynnodd am i werthfawrogiad y Pwyllgor Safonau gael ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor Safonau am reolaeth effeithiol yr Awdurdod gan staff ac Aelodau.**

6. **Adroddiad Monitro Cwynion**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2022/23.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbynir nifer o gwynion, ond oherwydd diwydrwydd staff yr Awdurdod sy'n ymdrin â'r cwynion yn broffesiynol ac yn brydlon, nid ydynt yn parhau i ddod yn gwynion ffurfiol. Pan ddarganfyddir bod gwasanaeth wedi methu, cymerir camau i sicrhau na fydd yr Awdurdod yn derbyn yr un gŵyn eto yn y dyfodol.

Yn codi wedi hynny, bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod problemau recriwtio parhaus, yn enwedig swydd Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r bwriad yw penodi ymgynghorwyr allanol i wneud y gwaith a oedd yn weddill ar hyn o bryd hyd nes penodir rhywun i'r swydd. Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer hyfforddiant i raddedigion a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod cefnogaeth bob amser i'r staff presennol sy'n dymuno camu i fyny i swydd uwch. Teimlai'r aelodau hefyd fod angen cysylltu ag ysgolion a cholegau lleol i roi gwybod iddynt am gyfleoedd gyrfa a'r prinder sgiliau a nodwyd. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod ail farchnad sgiliau'n dod i'r amlwg a fyddai'n gofyn i'r Awdurdod brynu arbenigedd gan ddarparwyr allanol a all fod yn ddrud.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r staff am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

7. **Caniatáu Goddefebau**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymhell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu goddefeb cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau nodi cywiriad yn yr adroddiad Cymraeg

(paragraff olaf ond un – tudalen 15) a oedd yn berthnasol “i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy” ac nid i “dau Aelod” fel y’i *cofnodwyd*.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhaodd fod y goddefebau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a chytunwyd i gymeradwyo'r goddefeb cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod gynnal ei fusnes yn effeithiol. Pan ddefnyddir y gollyngiad, mae'r Swyddog Monitro yn ei gwneud yn glir yn y cyfarfod y bydd y gollyngiad yn cael ei gymhwyso, a chaiff hyn ei gofnodi yn y cofnodion.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd (Sail 2[a] a [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31 Rhagfyr 2024 , oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2024.**
- 2. caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Sail 2 [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31 Rhagfyr 2024 , oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2024.**

## **8. Gwerthusiad y Pwyllgor**

Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan Mrs. Sharon Warnes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod am y cefndir a phwrpas mynychu Pwyllgorau'r Awdurdod fel sylwedydd. Roedd hwn yn drefniant anffurfiol i gael dealltwriaeth o bwyllgorau, sut maent yn gweithredu a sut y maent yn gweithredu mewn perthynas â safonau deddfwriaethol a sut maent yn gweithredu fel y'i gwelir gan y cyhoedd. Ymhellach, fel Is-Gadeirydd, roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfweiliad diweddar gydag Archwilio Cymru a oedd wedi gofyn am ei barn ar Lywodraethu'r Parciau Cenedlaethol, sut mae'r Pwyllgor Safonau yn gweithredu a'r cydweithrediad rhwng Aelodau Pwyllgorau eraill. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol a chymerodd y cyfle i ddiolch i Gadeiryddion y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Roedd y Cadeirydd wedi dymuno canfod sut brofiad oedd aelodau'r cyhoedd o fynychu pwyllgorau o'r fath ac fe'i calonogwyd bod y ddau bwyllgor wedi gweithredu'n dda, gydag arweiniad cadarn, roedd yr aelodau wedi paratoi'n drylwyr, a nodwyd y parch a ddangoswyd at gyd-aelodau. Roedd y weithdrefn o ddatgan budd hefyd wedi gweithio'n dda. Teimlai'r Cadeirydd fod yna rwystr bychan wrth fynychu'r cyfarfodydd trwy “Zoom” gyda'r angen i arafu'r camera i osgoi'r teimlad o symud a bod y meicroffonau wedi codi sgwrs breifat rhwng dau aelod. Gwelliant arall fyddai sicrhau bod enwau Aelodau'n cael eu cyhoeddi a'u bod hefyd yn cael eu darparu ar y sgrin i gynorthwyo'r cyhoedd i ddilyn y trafodion.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Cadeirydd am ei gwaith ac am ei sylwadau a chytunodd fod cyfarfodydd hybrid yn dal i fod yn waith ar y gweill. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno Adroddiad y Cadeirydd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf ym mis Mehefin 2024 ac erbyn hynny bydd wedi mynychu holl gyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod. Gellid wedyn ystyried presenoldeb aelodau eraill fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer y dyfodol.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael gwybod pryd y byddai'r oddefeb yn debygol o gael ei defnyddio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol a byddant yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod i arsylwi ar y goddefeb yn cael ei gymhwyso yn ymarferol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth .**

**9. Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol – 30 Mehefin 2023**

Derbyniwyd – Copi o'r Agenda ac adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod anghysbell Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan, a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023. Dywedodd am gyflwyniad gan yr Athro Mark Philp a oedd wedi cyhoeddi llyfr o'r enw "Leading in Practice" yn ddiweddar, a oedd yn ddiddorol i'w ddarllen. Hefyd, darparwyd data gan y Siaradwr Gwadd, Michele Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac fe nododd yr Aelodau fod yr Ombwdsmon yn ailystyried cylchredeg Adroddiad y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad, sydd ddim ond ar gael yn electronig ar eu gwefan ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd llawer o'r cyfarfod wedi bod yn berthnasol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ond teimlwyd y byddai'n werth aros yn rhan o'r Fforwm gan y gallai rhai elfennau fod yn fuddiol yn y dyfodol. Adroddodd y Cadeirydd ymhellach ar ymgyrch i sicrhau adnoddau ychwanegol yn genedlaethol i gefnogi Pwyllgorau Safonau, a hefyd bod ymateb y Pwyllgor Safonau i Adolygiad Penn wedi'i anfon ymlaen, gyda chyfnod ymgynghori pellach o'n blaenau, a olygai y byddai gweithredu yn ystod tymor nesaf y llywodraeth.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Cadeirydd a nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26 Ebrill 2024.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.45**

## EITEM RHIF 15

<b>CYFARFOD:</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD:</b>	Tachwedd 15, 2023
<b>TEITL:</b>	<b>ADRODDIAD ADBORTH GAN GYNHADLEDD EUROPARC 2023, LEEUWARDEN, YR ISELIROEDD</b>
<b>AWDUR:</b>	Prif Weithredwr
<b>PWRPAS:</b>	Derbyn adroddiad adborth a chyflwyniad o Gynhadledd EUROPARC 2023

### 1. CEFNDIR

- 1.1 Cynhelir cynhadledd Europarc ddwywaith y flwyddyn, ac eleni cynhaliodd yr Iseldiroedd y gynhadledd.
- 1.2 Roedd 2023 yn nodi 50 mlynedd ers sefydlu Ffederasiwn EUROPARC fel corff cynrychioliadol Ardaloedd Gwarchodedig Ewrop. Mae gan y Ffederasiwn aelodaeth o 413 o awdurdodau cyfrifol mewn dros 36 o wledydd ac mae'n hwyluso cydweithrediad rhyngwladol ym mhob agwedd ar Reoli Ardaloedd Gwarchodedig i wella a gwarchod ein hetifeddiaeth naturiol.
- 1.3 Mae'r Ffederasiwn yn cael ei gydnabod ledled y byd fel rhwydwaith proffesiynol o Ardaloedd Gwarchodedig Ewropeaidd sy'n darparu fforwm i rannu profiadau proffesiynol, cydweithio ar brosiectau technegol a datblygu nodau cyffredin. Mae Europarc yn gweithio'n agos ar faterion strategol megis twristiaeth gynaliadwy, parciau peri-drefol, parciau iach, amaethyddiaeth gynaliadwy, parciau ieuencid, ail-wylltio a thrawsffiniol.
- 1.4 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn aelod o Ffederasiwn EUROPARC ers dros 25 mlynedd a chynhaliodd Gynhadledd EUROPARC yn Eryri yn 2002.

### 2. CYNHADLEDD FFEDERASIWN EUROPARC, 2023:

- 2.1 Cynhaliodd yr Iseldiroedd gynhadledd 2023 ac roedd wedi'i lleoli yn Leeuwarden, Friesland. Ystyriodd y gynhadledd ddau edefyn penodol:
  - Y thema, "Teyrnged i'n tirwedd, lle mae natur a phobl yn cyfarfod mewn cytgorf" a
  - Dathlu 50 mlynedd o Ffederasiwn Europarc: dysgu o'r gorffennol, paratoi ar gyfer y dyfodol.

- 2.2 Gofynnwyd i gynrychiolwyr y gynhadledd ystyried tri chwestiwn canolog:
1. Pam, yn ymwneud â'r pwnc, mae'n berthnasol dod o hyd i gytgord hirdymor a chyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig?
  2. Sut gallwn ni, yn bersonol a gyda'n gilydd, newid ein hymddygiad a gweithredu ar lefel ranbarthol, genedlaethol ac Ewropeaidd i ddod o hyd i'r cytgord hwn?
  3. Pa wersi ydyn ni wedi'u dysgu o bolisiau a mesurau'r gorffennol o ran yr effaith ar y Dirwedd Ewropeaidd?
- 2.3 Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i rwydweithio a chyfnewid gwybodaeth. Roedd y rhaglen yn cynnwys prif areithiau, gweithdai thema, ac ymweliadau maes â chynefinoedd amrywiol.
- 2.4 Rhoddwyd rôl ganolog i ieuenctid Europarc yn y gynhadledd a buont yn ymwneud â threfniadau cynadleddau, sesiynau ysbrydoledig, gweithdai ac ymweliadau maes.
- 2.5 Yn y gynhadledd hon ystyriwyd yr angen i gael cydbwysedd rhwng Natur, anghenion cymdeithas a gofynion diwylliannol gyda'i gilydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu sydd gan y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a'r tair colofn sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy.
- 2.6 Mynychwyd y gynhadledd yn 2023 gan y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd.

### **3. DATGANIAD Y GYNHADLEDD:**

Mae'r datganiad y cytunwyd arno ar ddiwedd y gynhadledd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

### **4. DIGWYDDIADAU EUROPARC YN Y DYFODOL:**

Yn 2024 bydd 3 gweithdy ar gyfer aelodau Europarc ac nid yw lleoliad cynhadledd 2025 wedi'i gytuno eto.



October 2023, Leeuwarden, the Netherlands

## Statement EUROPARC Conference 2023

Our conference theme is "**Tribute to our landscape, where nature and people meet in harmony**". Celebrating 50 years of the EUROPARC Federation in 2023, the Leeuwarden Conference is a highlight. We invite participants to learn from our past and prepare for the future.

We see nature's decline, biodiversity loss, climate change, food concerns, and other worries about our planet. The conference makes a clear statement of intent and action to bring harmony between nature and people.

### 1. Past - Present - Future

Understanding our past and present helps us to work towards the future: the future we need and want. The connection between nature and culture manifests in diverse landscapes that change over time, whilst respecting our natural heritage and all life. Preserving landscapes' core values for the future reconfirms and conserves our link to previous generations.

### 2. Harmony with Nature

Living in harmony with nature, a stable climate and no pollution, requires a change in human attitudes and actions. We recognise the impact of humans on the landscape and nature and current dis-harmony that exists between people and non-human nature in many places in Europe. Many people and cultures have forgotten or lost their place within global ecosystems. Climate and biodiversity cannot wait any longer: we stress that nature is the foundation of our existence.

### 3. Contact and interconnectedness with nature

Go out there and spend time in nature. We have different experiences and backgrounds. However, appreciating nature and all its diversity is crucial to recognise its value to human society. Storytelling can inspire a growing understanding of nature's importance for our health, food, water and air. Share beautiful and connecting stories.

### 4. Knowledge

Even if humans know about nature, they tend not to act accordingly. Scientific knowledge and practical experience often stay in closed circles, instead of reaching out to people, beyond a "green bubble". There is a need to reach consumers, business owners or other stakeholders. Behaviour change is necessary.



### **5. Be Amazed, Protect and Educate**

Continue to marvel at nature and landscape beauty. Protected Areas have an essential educational role in reconnecting society with nature. You want to protect what you know and love. We need comprehensive approaches and cooperation to foster continuous environmental protection and nature education at European, national and regional levels. We need to work with the education sector to learn together - to share more between those knowledgeable in nature, heritage interpretation, environment and other areas.

### **6. Everywhere and all of the time**

Nature exists everywhere: in natural areas, cultural landscapes, cities and towns - they are all connected. We should seek better links between such areas, by collaborating with managers, users, residents and other organisations. New technology can help, but it should be supportive rather than controlling.

### **7. Start and act now**

We know that our landscapes face many challenges: overexploitation, intensification of uses, pollution, biodiversity loss, effects of climate change and loss of cultural heritage. Protected landscapes need to be pilot areas for integrated solutions. Let's take the action needed now to move from fear towards hope. Creating a better, more natural world together must begin now. Not only should we focus on our current perspectives, we need intergenerational interaction where young and old learn together, share achievements and improvements, for a common future. A roadmap for change is needed, with everyone playing a role, individually and collaboratively.

50 years of EUROPARC have passed.

May the next 50 years of EUROPARC bring us towards a more mature relationship in harmony with nature. For present and future generations. For all life.

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	15 Tachwedd 2023
<b>TEITL</b>	<b>Eithrio'r Adroddiad:</b> <b>TELERAU AC AMODAU</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	Gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad uchod

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Rwyf wedi ystyried y seiliau dros eithrio gwybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod ac yn gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod:
- 1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:
- 1.2.1 12. Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol.  
13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.  
14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).
- 1.3 Ffactorau o blaid datgelu: Dim
- 1.4 Rhagfarn a fyddai'n digwydd pe bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:
- Does ots sut y mae'r adroddiad wedi'i eirio, byddid yn canfod pwy yw'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw.
  - Ni waeth sut mae'r adroddiad wedi'i eirio, byddai materion ariannol y person, y personau neu'r Awdurdod sy'n destun yr adroddiad yn cael eu datgelu.
- 1.5 Mae fy marn ar brawf lles y cyhoedd fel a ganlyn:
- Mae budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu orau os yw'r Awdurdod yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau hunaniaeth yr unigolyn (unigolion) dan sylw a bod y wybodaeth ariannol yn cael ei diogelu.

## 2. ARGYMHELLIAD

**Bod yr Awdurdod yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Telerau ac Amodau" rhag cael ei ddatgelu.**